

# ECO'R WYDDFA

Rhif 221

MAWRTH 1996

Pris 25c

## Yn y rhifyn hwn . . .

- ★ Dathlu Pen-blwydd arbennig
- ★ Angladd Anghyffredin
- ★ Noson Wobrwyo lwyddiannus
- ★ Chwilota am Hanes Lleol
- ★ Hwyl Hefo Geiriau

. . . a llawer mwy

## LLANAST CARTHFFOSIAETH



Yr olygfa wrth Stryd y Farchnad, Llanberis.

**Mae pobl Llanberis wedi gorfod dioddef llanast a sŵn yn sgîl y gwaith o adnewyddu system carthffosiaeth y pentref. Roedd y gwaith, a gychwynnwyd fis Mai diwethaf, i fod i barhau am 32 wythnos. Aeth 40 o wythnosau heibio, a does dim golwg bod y gwaith yn tynnu at ei derfyn.**

Mae pawb rhesymol yn derbyn bod rhaid gwneud y gwaith ac yn sylweddoli nad oes modd ymgymeryd â'r fath gynllun heb beri rhywfaint o anhwylystod yn y pentref. Wedi'r cwbl, fedrwyd chi ddim yn hawdd iawn gau a thyllu strydoedd cyfan heb i hynny greu trafferthion.

Ond er cydymdeimlo â'r contractwyr a'r cynllunwyr, sy wedi wynebu problemau annisgwyl yn ystod y misoedd diwethaf, mae anniddigrwydd mawr ynglŷn â'r holl sefyllfa erbyn hyn. Cafwyd sŵn pypiau a chynhyrchwyr trydan ddydd a nos ers deng mis mewn rhannau o'r pentref. Yr unig gyfnod tawel a gafwyd ers mis Mai fu'r deg diwrnod o wyliau dros y Nadolig.

Mae'r tyllau dwfn a'r ffensys diogelwch haearn wedi gwneud rhannau o'r pentref yn friw i'r llygad ers misoedd lawer. Mae pobl wedi hen 'laru ar y baw a'r llwch erbyn hyn. Mae Stryd y Farchnad, er enghraifft, wedi ei chau ers misoedd a golwg ar y lle fel petae bom wedi ffrwydro yno.

Mae rhywfaint o sŵn yn anorod. Tybed nad yw pobl Llanberis wedi dioddef gormod, yn arbennig felly

ynghanol nos? Rhaid cael y pypiau i gadw'r tyllau a'r peipiau'n sych, ond a oes raid iddynt fod mor swllyd? Gellir mygu rhywfaint ar y sŵn trwy orchuddio'r pypiau efo gwellt. Pam, felly, na wneir hynny bob nos? A pham fod y sŵn yn uwch o lawer ambell noson?


Mae rhywfaint o lwch a baw yn anorod. A oes raid i ambell stryd fod wedi ei chau am wythnosau? Ai gwir y sôn bod ambell stryd i gael ei chodi eto oherwydd bod rhaid ailwneud

peth o'r gwaith? Gellir deall pryder rhai o'r siopwyr sydd wedi gorfod dioddef y baw a'r llwch ac wedi gweld eu busnes yn dioddef oherwydd problemau parcio yn sgîl y gwaith. Ofnir y bydd yn waeth arnynt eto wedi i'r gwaith symud i'r Stryd Fawr.

Yn ôl a ddeallwn mae'r gwaith mwyaf eto i'w wneud — tua'r orsaf bwmpio oddi ar y ffordd osgoi. A wneir pob ymdrech i gadw'r sŵn cyn ised â phosib? A fydd iawndal i berchenogion adeiladau a gafodd beth difrod oherwydd y tyllu parhaus? A gaiff busnesau lleol ostyngiad yn y dreth i wneud iawn am yr anhwylystod a'r colledion? A oes sicrwydd y bydd y gwaith yn y Stryd Fawr wedi'i ddarfod erbyn tymor prysur yr haf?



## EIFION YN NHÎM CYMRU



Eifion yn Noson Gwobrwyo Chwaraeon Arfon.

*Trowch i'r ddalen chwaraeon i gael hanes llwyddiannau diweddaraf y pêldroediwr ifanc, Eifion Jones, Gardd y Rhos, Llanrug. Yma mae Eifion ei hun yn rhoi hanes un gêm go bwysig:*

Er mai colli 2-1 wnaethom yn erbyn y Saeson, roedd y garfan i gyd yn weddol hyderus o guro'r Gwyddelod yn Wrecsam.

Roedd y gêm yn Wrecsam yn wahanol iawn i'r gêm yn erbyn Lloegr. Roeddwn yn gwybod bod llawer o bobl leol, yn cynnwys llond bws o'r Ysgol, yn dod i wylïo'r gêm. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth.

Gyda'r gwynt y tu ôl iddynt dechreuodd y Gwyddelod yn gryfach ac aethant ar y blaen ar ôl rhyw funud. Trwy lwc sgoriodd un o amddiffynwyr Iwerddon 'own goal'. Dwi ddim am anghytuno â Bobby Gould, oherwydd roedd ef yn teimlo nad fy mai i oedd gôl y Gwyddelod!

Ar ôl hanner amser mae'n deg dweud mai ni gafodd y rhan fwyaf o'r meddiant. Serch hynny, roedd angen gôl go arbennig i ennill y gêm. Fy nghyfaill o Bwllheli yn sgorio'r gôl bwysig. Er i'r Gwyddelod ddod yn ôl yn gryf, braf oedd ennill, yn enwedig ar y Cae Ras ac o flaen llawer o'm ffrindiau a theulu.

Rwyf yn edrych ymlaen am y gêm nesaf yn Abertawe yn erbyn yr Albanwyr.



# ECO'R WYDDFA

Rhif 221  
MAWRTH 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDDOL**  
**IWAN ROBERTS**  
LLEIFIOR, LLANRUG  
Ffôn: (01286) 675649  
**JOHN PRITCHARD**  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872390

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115  
**DYDDIADUR Y MIS**  
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)  
**FFOTOGRAFFWR**  
Gwynndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)  
**DATBLYGU LLUNIAU**  
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,  
Bangor (01248) 353337 neu  
871925  
**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug (675605)  
**TREFNYDD BWNDELU**  
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,  
Pontrug (673696)  
**TREFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)  
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**  
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon  
Bach, Llanrug (650200)  
**TREFNYDD PLYGU**  
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**  
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw  
yn eich ardaloedd.  
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248 670726)  
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys  
Roberts-Williams, Godre'r Coed  
(870580)  
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan,  
Bryn Gwna (677438)  
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)  
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)  
**DEINIOLLEN:** W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)  
**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y  
Bwlch, Dinorwig (870576)  
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri (870491)  
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn  
Moelyn (675384)  
**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones,  
Dwyfor (870440)  
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,  
Sycharth (872407)  
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)  
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**  
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, MAWRTH 28**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS LUN, MAWRTH 18**  
Os gwelwch yn dda

# DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

| RHIFYN     | DYDDIAD PLYGU | BLE?        | CYSYLLTU Â                 | RHIF FFÔN      |
|------------|---------------|-------------|----------------------------|----------------|
| EBRILL     | MAWRTH 28     | CWM-Y-GLO   | Mrs Iris Rowlands          | 872275         |
| MAI        | EBRILL 25     | DEINIOLLEN  | Mr W. O. Roberts           | 871259         |
| MEHEFIN    | MAI 2         | BRYNREFAIL  | Mrs L. P. Roberts-Williams | 870580         |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 27    | BETHEL      | Mr Geraint Ellis           | (01248) 670726 |
| AWST       | —             | —           | —                          | —              |
| MEDI       | MEDI 5        | DINORWIG    | —                          | —              |
| HYDREF     | MEDI 26       | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans              | 872407         |
| TACHWEDD   | HYDREF 31     | LLANBERIS   | Mr Gwilym Evans            | 872034         |
| RHAGFYR    | TACHWEDD 28   | CAEATHRO    | Mr Clive James             | 677438         |

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

## MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

**WAUNFAWR:** Heulwen Huws, Argoed (650556)

**DEINIOLLEN:**

**LLANBERIS:** John Pritchard, Cilfynydd (872390)

## Geirfa'r Gwalch

Annwyl Olygydd,  
Darllenais golofn Y Gwalch y mis  
diwethaf gyda blas, fel y byddaf bob  
tro, ond yr oedd ganddo air ac  
ymadrodd yn ei lith, na fedraf yn fy  
myw eu deall. Tybed a oes modd  
cael eglurhad ganddo?

Dyma hwy: (a) 'Edrychodd  
Shakespeare Jones arnaf yn  
GYNLLEDD'; a (b) 'Wedi neidio dros  
y Clawdd Mawr.'

Yr eiddoch yn gywir,

IOLO LLYWELYN  
Pant Afon Bach, Llanrug

## Adnabod y Llun

Annwyl Olygydd,  
Cefais dipyn o sioc pan agorais rhifyn  
Chwefror o'r Eco a gweld llun o hen  
athrawon Ysgol Brynrefail yn y  
20au. Daeth a llawer o atofion hapus  
yn ôl imi.

Dechreuais yn yr ysgol yn 1928,  
ond nid Mr Foster oedd y prifathro  
yr adeg honno, gan fod Mr Rowlands  
newydd gymryd y swydd. Rwy'n  
cofio Mr D R. Griffith a Mr Robert  
Morris yn dda iawn ac, fel y  
dywedodd Mrs G. M. Jones, Llanrug  
am Mr Morris, 'yr athro Saesneg  
gorau yng ngogledd Cymru'. Bûm yn  
siarad hefo'm brawd, Hywyn,  
ynghlŷn â rhai o'r pethau roedden ni'n  
ei gofio amdano fel athro — 'I before  
E except after C'; Figures of speech,  
onomatopoeia — 'Round the rugged  
rock', etc. Rwy'n cofio'r rhain i gyd  
wedi'r holl flynyddoedd.

Mae mab Mr Gwilym Jones yn  
byw yn Llundain ers blynyddoedd  
lawer. Roedd yn feddyg yn Ysbyty  
Middlesex cyn ei ymddeoliad. Mae fy  
mrawd am anfon copi o'r llun iddo.

Rwy'n cofio Miss Harry hefyd a  
Mis Waters. Tybed mai hi sydd  
rhwng Mr Griffith a Mr Gwilym  
Jones yn y lle mae'r marc cwestiwn  
yn y llun?

Roedd yn eira mawr yn 1928 ac  
rwy'n cofio cerdded — ar ben y  
waliau — adef o'r ysgol drwy  
Creigiau i fyny i Deiniolen a Mam yn  
disgwyl amdana yn y siop papur  
newydd yn y pentref.

Byddaf yn cael llawer o bleser yn  
darllen yr Eco, yn enwedig colofn  
Olwen Davies. Roedd hi flwyddyn yn  
hŷn na mi ond cofiaf amdani fel  
geneth glyfar iawn.

Mae fy Nghymraeg braidd yn

'garpiog' erbyn hyn gan imi fyw yma  
yn Coventry ers 40 o flynyddoedd a  
bellach wedi ymddeol o'r ysgol, ers  
1978. Byddaf yn dal i ymweld â'r  
ysgol dair gwaith yr wythnos i helpu  
hefo darllen. Mae gennyf ddwy  
wyres fach 7 a 6 oed, a dwy arall  
sy'n 13 a 16 oed ac yn yr ysgol  
ramadeg.

Byddaf yn ymweld â ffrind imi ym  
Mhwllheli bob haf ac fe fyddwn yn  
falch o glywed oddi wrth hen  
ffrindiau o fro Eco'r Wyddfa.

Yn gywir iawn,

IRA JONES  
(gynt o'r Vicarage, Deiniolen)  
69 Moseley Avenue  
Coundon, Coventry CV6 1AE.

## Athrawon Ysgol Brynrefail yn y 20au

Annwyl Ddarllenwyr,  
Diolch i Mrs G. M. Jones, Dalar Deg,  
am anfon llun o'r uchod. Rwy'n eu  
cofio hwy'n dda.

Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Mrs  
Williams, Coginio a lechyd a Glendid  
(Hygiene); D R. Griffith, a oedd yn  
byw ym Brynrefail cyn symud i fyw  
i Lanberis ac yna'n brifathro Ysgol  
Botwnnog; Miss Ellen Jones,  
Llanberis, a ddysgai'r dosbarthiadau  
ieuengaf; Gwilym Jones, Clwt-y-  
bont, a ystyrid yn athro Daearydd-  
iaeth gorau Cymru; Miss Williams, o  
Gaersws — ni chlywais mohoni yn  
siarad Cymraeg o gwbl — bu farw'n  
ifanc; Robert Morris, Llanberis, fel y  
dywedodd Mrs Jones ef oedd athro  
Saesneg gorau gogledd Cymru, a'i  
ysgrifen 'copperplate' daclus; Miss  
Margaret Evans, Mynydd Llandegai,  
a ddysgai Gymraeg — bu hi farw  
ychydig cyn y Nadolig 1955, yn 98  
oed. Roedd ganddi radd M.A. ac  
roedd yn Ynad Heddwch. Brynrefail  
oedd ei hysgol gyntaf, daeth yno yn  
1921, ond oherwydd torri ar y staff  
bu'n rhaid iddi ymadael yn 1924, a  
chafodd swydd yn y Rhondda.  
Priododd ag R. W. Williams (Williams  
yr Undeb) a chartrefu ym  
Mhenygroes. Cafodd fynd i ddathlu  
canmlwyddiant Ysgol Dyffryn  
Ogwen yr haf diwethaf fel y disgybl  
hynaf yr ysgol honno.

Rhes flaen: Miss Gwyneth Harry,  
a ddaeth o'r De, yn dysgu  
Gwyddoniaeth. Priododd hi â phêl-  
droediwr poblogaidd o Frynrefail a  
elwid yn 'coch bach' ac ni wn ei enw  
cyntaf ond ei gyfenw oedd Williams.

Aeth y ddau ohonynt i'r Unol  
Daleithiau gan ymsefydlu yno. J.  
Rees Foster, prifathro cyntaf yr  
Ysgol, Sais o Northampton.  
Treuliodd bron i chwarter canrif ym  
Mrynrefail. Miss E. J. Parry, Cwm-  
y-glo, dirprwy-brifathrawes.  
Priododd hi â'r Parchg David  
Williams a threulio gweddill ei hoes  
ym Mhenmaenmawr.

Yn gywir,

MAIR PARRY  
Gorwel, Llanllyfni  
O.N.: Llanberis District County  
School oedd enw swyddogol Ysgol  
Brynrefail yr adeg honno.

## COFEB I DILYS CADWALADR

Annwyl Olygydd,  
Carwn alw sylw eich darllenwyr  
llengar i ddiffyg cofeb o fath yn  
y byd i nodi man beddrod y  
ddiweddar fardd coronog, Dilys  
Cadwaladr, ym mynwent  
Llanrug.

Fel y gwyr pawb llengar, hi  
oedd y ferch gyntaf i ennill  
Coron yr Eisteddfod Gened-  
laethol yn Y Rhyl (1953) am ei  
phryddest 'Y Llen'.

Roedd yn ferch o'r fro hon ac  
fe'i haddysgwyd yn Ysgol Sir  
Brynrefail ac roedd ei chartref  
gerllaw ym Mhen-llyn.

Roedd fy mhriod a mi, ynghyd  
â'r ddiweddar Mrs Mary Lloyd  
Williams, Llys Awen, yn  
bresennol yn ei hangladd, yn  
Ionawr 1979, ac yn gwybod am  
safle ei bedd yn yr erw honno.  
Byddaf yn aml, ar fy rhawd, yn  
mentro i'r fan honno gan sylwi  
nad oes ond talp o garreg wen  
o'r maes ar ei bedd.

Rwy'n siŵr y cutunwch â mi  
fod Merch yr Oriau Mawr, yn ôl  
Eigra Lewis Roberts, yn haeddu  
sylw teilwng gan ei chyd-  
frodorion. Beth amdani Ferched  
y Wawr neu Glwb Eryri? Rwy'n  
siŵr y gallai eich cymdeithasau  
gychwyn ymgyrch i sefydlu  
cronfa i osod cofeb deilwng,  
gyda chaniatâd ei theulu, i nodi  
man ei bedd.

Yn gywir,

ROBERT WILLIAMS  
Llain Gwta,  
5 Gwelfynydd, Llanrug.



## ARIAN Y CARNIFAL



Yn ystod cyfarfod blynyddol pwyllgor Carnifal Llanberis cyflwynwyd rhoddion o elw Carnifal 1995 i ddau fudiad lleol. Derbyniodd Adran Llanberis Urdd Sant Ioan ac Eisteddfod Llanberis £1,300 yr un. Cyflwynwyd y sieciau gan drysorydd y Carnifal, Mr Arfon Phillips, i Mrs Helen Jones ar ran Urdd Sant Ioan ac i Mrs Anne

Hughes a Mrs Dilys Williams, trysoryddion yr Eisteddfod. Mae swyddogion y ddau fudiad yn gwerthfawrogi'r rhodd yn fawr iawn. Llongyferchir pwyllgor y Carnifal ar lwyddiant Carnifal y llynedd, a diolchir i bawb sy'n gweithio dros y Carnifal. Mae eu dyfalbarhad o flwyddyn i flwyddyn nid yn unig yn sicrhau diwrnod Carnifal ardderchog ym mis Gorffennaf ond hefyd nawdd gwerthfawr i wahanol fudiadau yn y pentref.

## DATHLU'R CANT



Mrs Elin Griffith gyda Mr Wil Jones.

Roedd dathlu mawr yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, ddydd Iau, Chwefror 15, ar ddydd pen-blwydd Mrs Elin Griffith, Bryn Llwyd, Stryd Newton, Llanberis, yn gant oed. Daeth nifer fawr o gyfeillion yno i ymuno yn y dathlu gyda Anti Nel (Nel Glanffrwd i lawer o'i cyfeillion). Roedd digon o frechdanau

samwn, treiffl sieri, cacennau hufen a sieri i'w fwynhau gyda'r deisen pen-belwydd fawr. Agorwyd yr achlysur gan Mr William Jones, Dreflan, Ffordd Capel Coch, ac estynnodd groeso i hen ffrindiau o bell ac agos.

Un hen ffrind a ddaethai i'r parti oedd John Witcomb a fu'n cartrefu gydag Anti Nel pan oedd ef yn gweithio gyda'r Llu Awyr yng Nglyn Rhonwy yn 1941. Adroddodd John yr hanes diddorol am y croeso a gawsai i gartref Nel a Gruffudd John Griffith ym mis Awst 1941. Bu yno am saith mis cyn symud i Westy'r Fictoria. Derbyniai gyflog o ddeuswllt y diwrnod. Gan y byddai'n cael awr a hanner o amser cinio byddai'n cerdded i Bryn Llwyd i gael cinio oedd wedi ei gadw ar ei gyfer ym mhopty'r grât. Dathlodd y Nadolig yno hefyd a chael gŵydd i ginio Nadolig a hwyaden i ginio dydd San Stephan. Nid oedd wedi blasu'r bwydydd hynny cynt.

Er iddo symud i'r Fic daliai John i alw ym Mryn Llwyd bob dydd Sul a chael yno ginio Sul traddodiadol. Ond gan y byddai Mr a Mrs Griffith wedi mynd i gapel Nant Padam byddent wedi gadael allwedd y drws dan y mat coconut ar ei gyfer, a châl yntau ei helpu ei hun i'r cinio oedd wedi ei gadw iddo.

Cafodd John amser braf yn Llanberis ac mae ganddo feddwl uchel o'r ardal a'r bobl hyd heddiw. Mae wedi bod yn llythyrru ag Anti Nel ers hanner canrif bellach, a'i chymdogion wedi bod yn darllen yr hanesion a'r straeon diddorol iddi. yn ddiweddar mae wedi bod yn anfon tapiau sain sy'n golygu bod Anti Nel wedi gallu gwrando'n uniongyrchol ar y straeon. Roedd wedi addo iddi y byddai'n dod i'r dathliad pen-blwydd arbennig.

Da oedd gweld pawb wedi ymgynull ym Mryn Seiont i ddathlu. Mae'n rhyfedd meddwl bod Mrs Griffith yn saith wythnos oed pan aeth y teithwyr cyntaf i gopa'r Wyddfa ar y trên bach ganrif yn ôl.

## DROS BEDAIR CENHEDLAETH



Derbyniwyd y llun hwn o Mrs Mari Pritchard a'i gor-ŵyr diweddaraf Siôn. Mae Mrs Pritchard erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Tynnwyd y llun pan oedd Siôn yn dri diwrnod oed. Anfonwn ein cofion at Mrs Pritchard gan obeithio ei bod yn gwella yn dilyn y cyfnod a dreuliodd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Cefnogwch ein  
Hysbysebwyd

## Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon  
LLANRUG

Caernarfon 673513



## EISTEDDFOD PENISARWAUN



Huw Tegid — Prif Lenor dan 18 oed yr Eisteddfod eleni.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF  
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

**Lynette Evans**  
GARNET, LLANRUG  
Ffôn: 673981/675807



# CHWILOTA CHWARAE PÊL A CHLWPA



Er gwaethaf yr holl dywydd gaeafol a gawsom eleni, does ond cwta fis nes bydd tymor chwarae criced yn ailgychwyn. Ar hyn o bryd mae Cwpan y Byd yn cael ei chwarae yng ngwledydd India a Sri Lanka. Mae'r Golygydd Chwaraeon yn hoff iawn o'r gêm, ac yn aml yn brolio mai aelodau o'r fro hon yw mwyafrif tîm criced Clwb y Fron Dinas. Ond does dim tîm na chlwb criced o fewn bro'r Eco, na 'chwaith yn nhref Caernarfon, er fod trefi eraill Gwynedd (yr hen a'r newydd!) yn arddel timau. Ond pryd tybed y dechreuwyd chwarae'r gêm hon yn y parthau hyn?

Deuthum ar draws cyfeiriad at gêm arbennig o griced yn cael ei chwarae ar Forfa Seiont yng Nghaernarfon (cartref Clwb Rygbi'r dref erbyn hyn) mor gynnar â haf 1860 — ymhell cyn bod sôn am chwarae pêl-droed yn yr ardaloedd hyn. Mae'r gohebydd yn defnyddio dau enw ar y gêm — cricet neu chwarae pêl a chlwp. Mae'r ail enw yn awgrymu fod y gêm, neu o leiaf, gêm debyg i griced yn cael ei chwarae yng Nghymru yn gynharach. Daw'r gair *cricket* neu *cricket* o Hen Ffrangeg, yn golygu 'postyn'. Yn y gyfrol *Sports and Pastimes of the People of England*, a gyhoeddwyd yn 1801, awgrymir mai tarddu o hen gêm ganoloesol o'r enw *club ball* a wnaeth. A dyna roi'r enw Cymraeg arni — pêl a chlwp. Ystyr 'clwp' yw *club* neu bastwn.

Ceir cyfeiriadau cynnar at y gêm yn 1598 yn Guildford, ac yn Winchester cyn y Rhyfel Cartref. Sefydlwyd yr MCC (Marylebone Cricket Club) yn 1787, sef corff llywodraethol y gêm bellach. Agorwyd maes presennol Lords yn 1814. Felly, hanner can mlynedd yn ddiweddarach, roedd y gêm wedi cyrraedd Caernarfon.

Chwaraewyd y gêm honno ar yr wythfed o Fehefin 1860, gan ddechrau am chwech yr hwyr. Clwb y Dref a Chlwb yr Athrofa

oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Clwb y Dref oedd yn batio gyntaf, ond 'er maint eu medrusrwydd hwynt, bu raid iddynt ganu'n iach i'r bat heb wneud cymaint o niwed i'r bêl ag a wnaeth hi iddynt hwy.' Roedd y tîm i gyd allan am 24 o rediadau mewn cwta hanner awr. Gwnaeth Clwb yr Athrofa beth yn well, gan sgorio cyfanswm o 80 o rediadau. Yn ail fatiad Clwb y Dref, methiant fu eu hanes unwaith eto, gan sgorio 23 rhediad yn unig y tro hwn. Clwb yr Athrofa oedd yn fuddugol felly, gan ennill o fatiad a 33 rhediad, a hawlio eu gwobr, sef pêl griced. Ond gwrthododd Clwb y Dref â'i rhoi. Nid yw'r gohebydd yn adrodd a fu gornest baffio rhyngddynt am y bêl!

## PÊLDROEDWYR LLANRUG

O gêm yr haf i gêm y gaeaf! Yn dilyn cyhoeddi'r llun o dîm pêldroed Llanrug yn y rhifyn diwethaf, daeth atebiad cyn i'r inc sychu ar y dudalen. Mr Myrddin Williams, Penterfyn, Llanrug, ddaeth a'r holl enwau i mi a'r rheswm pam fod y tîm un chwaraewr yn fyr. Gyda diolch am ymateb mor sydyn. Trueni na fyddai'n bosib cael yr un ymateb bob tro!

Tîm Llanrug yn y flwyddyn 1932 sydd yn y llun, sef rhes gefn (chwith i'r dde): Mr Hughes 'Prudential'; Owen Christmas Jones; W. O. Griffith, gofalwr y Sefydliad Coffa; Myrddin Parry; John Edwards a Willie Thomas. Rhes ganol: Arthur Pritchard; R. T. Roberts (neu Robin Tom); Owen (Nowi) Jones; Sadie Evans; John Ellis Jones; Alun Jones a Percy Wilson, perchennog y siop ger giât ysgol bresennol Brynrefail. Rhes flaen: Bob Orritt; Myrddin Williams; Griffith Emlyn Pritchard a Caerwyn Griffith.

Yr aelod ar goll oedd Bertie Jones, Bryngwyn, a oedd, yn ôl Mr Myrddin Williams, wedi ei gymryd yn wael cyn tynnu'r llun. Dau o'r chwaraewyr yn y llun sy'n parhau'n fyw heddiw, sef Myrddin Williams, Llanrug, a Caerwyn Griffith, Caernarfon.



Parti Canu Llanrug a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhafiliwn Caernarfon, 1930. Rhes gefn: Evelyn Pritchard, Gwyneth Jones, H. Watcyn Jones (cyfeilydd), Katie Wyn Jones, Jennie Humphreys. Rhes flaen: Mary Pritchard, Meinir Thomas, William Jones (hyfforddwr), Lizzie Bacton Jones, Jennie Maud Thomas.

Yn ôl Mr Williams doedd y tîm ddim yn perthy i unrhyw gynghrair arbennig y pryd hwnnw ond yn chwarae nifer helaeth o gêmiau cyfeillgar. Roedd eu cae chwarae wrth ymyl cae chwarae presennol y pentref yng nghefn Ffordd yr Orsaf.

## EISTEDDFODWYR LLANRUG

Gyda diolch i Mrs Jennie Hughes, Hafan Elan, Llanrug, am anfon y llun o Barti Canu Llanrug a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaernarfon yn 1930. Ble mae aelodau'r parti canu erbyn heddiw tybed? Cred Mrs Hughes fod y rhan fwyaf ohonynt yn parhau'n fyw.

## Y GYMDEITHAS GENHADOL YN LLANBERIS

Cefais lythyr gan Mrs Cathryn James, Cororion, Tre-garth yn sôn am ei chysylltiadau teuluaid â Thyddyn Siarles, Llanberis. Meddai: 'Ymysg papurau fy hen daid mae rhestr o gryfrannwyr i Gasgl y Gymdeithas Genhadol 1849.' Maent wedi eu rhannu i wahanol ddosbarthiadau. Mae'n debyg fod gan yr aelodau gyfrifoldeb am gasglu o nifer arbennig o dai mewn cylch lleol. Roedd pedwar o dai yn Nosbarth Tŷ Du, sef Stabal Goch, Tŷ Du, Tŷ Newydd a Coed Mawr. Yn Nosbarth Pen y Gilfach roedd Glyn, Glan-llyn, Coed y Glyn, Hen Gilfach a Chwarel Glyn. Roedd Sarn, Clegir, Penrallt, Foty, Tanfoty a Gallt y Glyn yn Nosbarth Clegir. Nid yw'n ymddangos fod gweddill y tai yn perthyn i unrhyw ddosbarth arbennig, sef Tynraelgerth, Pentre Castell, Cae Esgob, 'Rhafod, Glan y Bala, Gellihirbant, Tai Cwmbwrnog, Sdabal Gerrig a Tŷ Gwyn. Tybed ydi'r rhain yn dal i sefyll? Gwn fod nifer ohonynt yn adfeilion bellach.

Gyda llaw, does neb wedi cysylltu i ddweud ble roedd (neu ble mae) Bryn Fforch yn Llanberis.

## CRAIG YR UNDEB

Llythyr o Langefni (yn anffodus fe anghofiodd yr awdur ei lofnodi!) roes wybodaeth i mi am y bwriad o gynnwys englyn y diweddar Morris D. Jones (Glan Caledffrwd), Llanrug, ar y gofeb i nodi canmlwyddiant Undeb y Chwarelwyr. Mae'n werth cynnwys yr englyn, er fod nifer helaeth o'r darllenwyr yn gybyddus â hi rwy'n siŵr:

Hen randir cewri'r undeb — a llwyfan  
Lle bu llef uniondeb;  
Yma'n trin eu trychineb  
Bu eofn wŷr heb ofn neb.

Ond dim sôn am lun na mwy o wybodaeth am y man cyfarfod pwysig hwn yn hanes ein bro.

## Y BACHGEN ANGHOFIODD EI FAM

Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant, anfonodd yr hen gân hon am Deio bach, sef y bachgen yn y teitl. Ysgrifennwyd hi gan John Jones, Llangollen, gweinidog a ymfudodd i'r America. Yn ôl Mr Owen roedd galw mawr am y gân hon yn ystod y blynyddoedd cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a'r tenoriaid yn cael hwyl garw ar ei 'morio hi'. Dyma ddau bennill yn unig:

Megais fachgen bach ac annwyl  
Ar fy mron mewn trafferth mawr;  
Deio, ti yw'r bachgen hwnnw  
Na wn ble yr wyt yn awr;  
Maith yw'r amser er y'th welais,  
Machgen annwyl, wyt ti'n iach?  
O! na elli ddyfod trosodd;  
Anfon lythyr, Deio bach.

Os na elli ddyfod trosodd,  
Os na elli'm helpio ddim;  
Beiddiaf ofyn un peth iti,  
'Fallai rhoddi hwnnw im;  
Carreg fedd nid wy'n ei gofyn,  
Gormod hyn fu'n hiraeth iach  
Gollwng ddeigr yn wrth fy nghofio,  
Dim ond deigr yn, Deio bach.

Mae'r golofn yn parhau i roi gormod o sylw i hanes Llanrug — ond dim ond trigolion Llanrug sy'n cysylltu â mi. Oes yna rywun ym mhentrefi eraill y fro sydd ag atgofion, hanesion, lluniau neu ymholiadau am yr oes a fu?

Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

Am Wasanaeth  
Fframio Lluniau  
Tystysgrifau  
Tapestri  
am brisiau rhesymol  
**ELWYN  
PRITCHARD**  
Parc Padarn, Llanberis  
Ar agor Llun — Sadwrn  
10.00 — 4.30  
Ffôn: Llanberis  
**870922**



## 'Un funud fach . . .'

### YR ARWYDD

Yr unig gysur yw nad fi oedd yr unig un a gafodd ei ddal.

Ar y ffordd i'r Coleg Normal yr oeddwn ben bore Llun. Ger wal y Faenol dyma arwydd 'ROAD CLOSED AT COLEG NORMAL'. Mentrais bod hynny'n golygu y gallwn gyrraedd y Coleg er na ellid mynd ymhellach na hynny. Ymlaen â mi. Cyrraedd y gylchfan ger Pont y Borth, a chael bod y ffordd wedi'i chau . . . hanner milltir da oddi wrth y Coleg wrth gwrs. Gorfod troi yn ôl, a dilyn rhes hir o geir yn ymlwybro'n araf trwy Benrhosgarnedd, a chyrraedd y Coleg o'r cyfeiriad arall . . . hanner awr yn ddiweddarach!

Galwch fi'n ddwl, os mynnwch, ond rwy'n dal i fynnu bod 'Road Closed AT Coleg Normal' yn golygu bod y ffordd wedi'i chau 'YN' neu 'WRTH' y Coleg ac nid hanner milltir oddi wrtho! Pan na ellid dweud bod y ffordd wedi ei chau 'wrth y gylchfan', neu 'wrth yr Antelope'? Oni bai, wrth gwrs, mai arwydd Cymraeg ydoedd wedi'r cwbl, yn cyhoeddi bod y 'Rôd clôsd AT Coleg Normal'.

Y Beibl yw ein harwydd at Grist. Yr Efengyl yw ein harwydd tua'r nefoedd. Diolch byth bod yr arwyddion yn eglur ac yn ddibynadwy.

Dangosant mai'r Arglwydd Iesu Grist yw'r ffordd. Ef yw'r ffordd, a'r unig ffordd at Dduw. Trwy gredu ynddo y daw pobl i adnabod Duw ac i wybod am ei gariad mawr. Trwy ymddiried ynddo Ef y daw pobl i wybod am Dduw fel Tad Nefol sy'n caru maddau beiau. Trwy garu yr Iesu ac ufuddhau iddo y caiff pobl brofi gwir ddedwyddwch. A thrwy bwysio arno Ef y daw pobl yn ddiogel yn y diwedd i'r nefoedd a'r bywyd tragwyddol.

Mae'r arwyddion yn eglur. Gellir eu credu ac ymddiried ynddynt. Y Duw geirwir sydd wedi siarad â ni trwy'r Beibl. Nid yw wedi ein camarwain. Ac nid yw'n dweud celwydd. Ni all Duw wneud hynny. Ni fyddai ganddo unrhyw reswm dros fod eisiau gwneud hynny. Mae Duw yn bwriadu lles pobl fel ni, ac mae'n awyddus i ni ddod i berthynas ag Ef. Rhoddodd yr arwyddion clar i'n cyfeirio at ei Fab Iesu.

Ac os down at ei Fab, a chael ein hunain yn cerdded y Ffordd, ni fydd Duw yn ein siomi. Ni fydd neb yn credu yn y Gwaredwr, ac yn ymddiried yn ei gariad a'i faddeuant, yn darganfod ar ddiwedd y daith iddo wneud hynny'n ofer. Ni fydd neb a gredo yn ei gael ei hun yn brin o ben draw'r siwmai.

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

**Dosbarthwr Newydd:** Diolch i Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn, am ymateb i'r apêl a wnaed yn y rhifyn diwethaf am gymorth i ddosbarthu'r Eco ym Maes Padarn. Bydd Ken yn gyfrifol am hanner tai Maes Padarn. Bydd lolo Griffith yn parhau i ddosbarthu'r Eco i weddill Maes Padarn. Diolch iddo yntau.

**Undeb y Mamau:** Pnawn dydd Mawrth, 6ed Chwefror, yn festri Eglwys St. Padarn, cynhaliwyd ein cyfarfod misol. Oherwydd y tywydd garw gohiriwyd y Cyfarfod Blynnyddol (AGM) tan mis nesa.

Llywyddodd Mrs Dilys Phillips y gwasanaeth ac adroddodd Mrs Audrey Evans ran o'r Beibl. Cafwyd pnawn diddorol iawn gan edrych yn ôl ar ddigwyddiadau gymerodd le yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mrs Phillips a Mrs Jean Roberts oedd yn ymorol am y lluniaeth a Jean oedd yn lwcus o ennill y raffl.

**Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Chwefror** — £35: Miss S. Pepper, Cynefin, Brynrefail (22); £25: William Foulkes, 40 Stryd Newton (27); £15: Mrs B. Lewis, 3 Rhes Efrog (124); £10: Mrs M. Jones, 6 Blaen y Ddôl (25); £5: Mrs M. Jones, 39 Maes Padarn (128).

**Marwolaeth:** Bu farw Helen Rowlands, gynt o Graig-y-nos, yng Nghonwy ar Chwefror 12. Roedd yn 70 mlwydd oed, ac yn chwaer i Hubert a'r diweddar Robert Morris. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Y Gymdeithas Undebol:** Tybed sawl cyfarfod a phwyllgor a ohiriwyd oherwydd yr eira a gawsom ym mis Chwefror? Siom i aelodau'r Gymdeithas oedd gorfod gohirio'r cyfarfod gyda Mr Guto Roberts, Y Groeslon (Rhos-lan gynt). Ond bydd yr aelodau yn falch o ddeall y bydd Guto Roberts yn dod atom i'r swper blynnyddol. Bydd y swper yn Y Bistro, nos Fawrth, 19 Mawrth. Rhowch eich enw ar unwaith i'r ysgrifennydd, Gareth Jones, 27 Dôl Elidir (871882). Hwn fydd cyfarfod ola'r tymor.

**Dydd Gweddï Byd-eang y Chworiydd:** Cynhelir y gwasanaeth blynnyddol hwn yn festri Capel Coch, nos Wener, Mawrth 1, am 7 o'r gloch.

**Eisteddfod Llanberis:** Mae'r trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod

wedi eu cwblhau erbyn hyn. Bydd yn cael ei chynnal yn festri Capel Coch, nos Wener, Mai 24, am 6 o'r gloch. Y beirniaid fydd Ms Haf Morris, Llandegfan; Mrs Madge Hughes, Mynytho; a Mr Dylan Owen, Llanberis. Mr Dei Tomos fydd Llywydd yr Eisteddfod. Bydd cystadlaethau'r llwyfan i rai dan 15 oed ar gyfer plant a ieuencid Llanberis a Nant Peris yn unig. Ond mae croeso i unrhyw un o fro'r Eco'r Wyddfa gystadlu yn y cystadlaethau i rai dros 15 oed. Mae cystadlaethau ar gyfer trigolion bro'r Eco yn yr adran llenyddiaeth hefyd. Ceir y manylion yn yr hysbyseb ar y dudalen hon. Mae rhaglen a thestunau i'w cael gan yr ysgrifennydd, Mrs Heather Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis (872569). Dymuna aelodau pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch yn fawr iawn i bwyllgor Carnifal Llanberis am y rhodd ariannol a gyflwynwyd i'r Eisteddfod.

**Plaid Cymru:** Bydd aelodau'r gangen yn ymuno ag aelodau cangen Llanrug mewn Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria, nos Fercher, Mawrth 5. Dechreuir am 7 o'r gloch. Yr Aelod Seneddol lleol, Mr Dafydd Wigley, fydd y gŵr gwadd, a bydd yr adloniant yng ngofal Arfon Gwilym. Mae tocynnau ar gael am £10.50 gan Bert Parry, Sycharth, Llanberis (871433).

**Llythyr:** Cafodd Carwyn Jones, 7 Stryd y Wyddfa, lythyr heb ei ddisgwyl y dydd o'r blaen. Roedd Carwyn, fel llawer o blant y pentref, wedi cyfrannu at Apêl Bocs Esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Plentyn o wlad Kenya oedd wedi derbyn yr anrheg a anfonodd Carwyn, ac yn ei lythyr roedd y bachgen yn dweud ei fod wedi mwynhau chwarae efo'r anrhegion a dderbyniodd. Cofiwch roi gwybod i'r Eco os gwyddoch am blentyn arall a dderbyniodd lythyr o dramor yn diolch am y bocsus.



**Capel Coch:** Cafodd yr eglwys golled fawr trwy farwolaeth Mr Thomas Henry Jones, 6 Rallt Goch Ceunant. Bu'n flaenor yn yr eglwys ers nifer o flynyddoedd ac ef oedd ysgrifennydd yr eglwys. Bu hefyd yn athro Ysgol Sul am flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu yn eu colled. Gellid talu teyrngedfaith iddo.

Ysgrifennydd newydd yr eglwys yw Mr John Hugh Hughes, Tan-y-clogwyn, a dymunwn bob bendith iddo ynglŷn â'r gwaith.

Cofiwch bod y Cyfarfod Plant yn cael ei gynnal ar brynhawn dydd Mawrth yn union wedi amser ysgol. Mae croeso yno i holl blant Ysgol Dolbadarn.

#### Diolchiadau:

Dymuna Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon Bunglows, ddiolch o

galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu'n yr ysbyty ac wedi dod adre'n ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Euron Davies, 4 Stryd y Wyddfa, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Elizabeth Bryan, 1 Rallt Goch, ar ran y teulu ddiolch i'r goll gymuned am eu cydymdeimlad diffuant iddynt ar farwolaeth Thomas Henry Jones. Diolch am eich caredigrwyd di-ben-draw i Tom yn ystod ei waeledd. Diolch i bawb yn y Clinig, Llanberis — gwerthfawrogi Tom eich cymorth parod a'ch gofal dros y blynnyddoedd. Carwn ymestyn fy niolech a'm gwerthfawrogiad o waith Dr Hodges a'i gydweithwyr yn Ysbyty Gwynedd am eu hymroddiad a'u gofal tyner. Er mai amser byr a dreuliodd ym Mryn Seiont fe wnaeth y staff yno gyfraniad gwerthfawr iawn i'w oriau olaf, a diolch o galon iddynt. Ein diolch hefyd i'r gweinidog, y Parchg J. Pritchard am ei ymroddiad ac i Mr M. Pritchard am ei gynorthwy gofalus. Diolch i chwi oll am eich cyfraniadau hael tuag at ymchwil y cancr — casglwyd £252.

Dymuna Mrs Ceinwen Williams a'r teulu, Bodowen, Rhes Cambrian, ddiolch i gymdogion a chyfeillion am bob cydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Gwynfor. Gwerthfawrogi yn fawr yr ymweliadau, ynghyd â'r holl lythrau, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd.

**Y Carnifal:** Cynhaliwyd pwyllgor blynnyddol y Carnifal yn ddiweddar a phenderfynwyd cynnal wythnos y Carnifal o'r 14eg hyd yr 20fed o Orffennaf 1996. Dewiswyd y swyddogion canlynol — Llywydd: I. Ellis Jones; Cadeirydd: Gareth Jones; Trysorydd: Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Alan T. Jones.

**Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon:** Bu'r nosweithiau Carioci a Bingo a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror gan Bwyllgor Apêl Llanberis yn llwyddiannus a diolchir am y gefnogaeth. Mae lleoliad y Cyngerdd gyda Chôr Godre'r Garth sydd i'w gynnal nos Sul y Pasg wedi ei newid Cynhelir y Cyngerdd yn Eglwys St. Padarn am 8 o'r gloch.

**Ysgol Dolbadarn:** Dymunwn adferiad buan i Mrs Nan Humphreys a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn yr Ysgol cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser croeso i Mr Hughes sydd gyda ni yn ei lle. Penodwyd athro newydd ar gyfer y dosbarth hynaf; bydd Mr Dylan Môn Parry, sy'n dod o Gaerhun, yn cychwyn ei waith yma ddechrau'r tymor nesaf.

Braf oedd gweld adroddiad yr arolygiad diweddar a gynhaliwyd yn yr Ysgol a nodi mai parhau i adeiladu ar y seiliau da sy'n bodoli eisoes yw byrdwn y 'Materion Allweddol' ar Gyfer Gweithredu' a welir yng nghefn yr Adroddiad. Nodir yr ystadegyn eithriadol o ffafriol sy'n datgan fod 'ansawdd yr addysgu'n foddhaol neu well yn rhyw 96% o'r gwaith, ac y mae llawer o addysgu effeithiol.'

Dymuna Cadeirydd y Llywodraethwyr longyfarch prifathrawes a staff yr Ysgol ac edrycha ymlaen at gyfnod o ddatblygiad pellach gan wybod fod plant Llanberis yn derbyn profiadau o ansawdd uchel.

## EISTEDDFOD LLANBERIS

NOS WENER, 24 MAI 1996 YN Y CAPEL COCH, LLANBERIS

CYSTADLAETHAU YSGRIFENEDIG SY'N AGORED I DRIGOLION BRO'R ECO:

★ ERTHYGL I BAPUR BRO ★

★ LLYTHYRAU AT DRI PHERSON AMLWG ★

★ CYFANSODDI EMYN DECHRAU BLWYDDYN ★

**LLINELL GOLL:** Ennill arian mawr y Lotri  
Dyna ydoedd breuddwyd Mari  
Beth a wnâi pe bai yn llwyddo?

**GORFFEN Y LIMRIG:** 'Mae'r dyn 'cw'n fy ngyrru i'n wirion,  
Rwyf bron iawn a'i roi mewn Ffair Sborion,  
Medd Elin wrth Siân  
A'i llygaid yn dân,

Dylai pob ymgais fod yn llaw yr Ysgrifennydd, Heather Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis, erbyn 4 MAI 1996. Rhodder ffug-enw ar bob ymdrech, a'r enw cywir ynghyd â'r ffugenw mewn amlen ar wahân.



# O Siambar Selwyn

Yn ystod y mis bach 'ma mi rydwi wedi cael y fraint o dreulio sawl diwrnod yng nghwmni plant Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy, yn cael 'Hwyl Hefo Geiriau'.

Dyma ardal lle ma' 'na lawer o fewnfudwyr, a hyfryd oedd canfod fod y plant erbyn iddyn nhw gyrraedd y dosbarthiadau uchaf yn rhugl yn eu Cymraeg ac yn gallu ymateb yn ddeallus, ac yn cael 'hwyl hefo geiriau'.

Ond unwaith roeddian nhw yn cael eu traed yn rhydd i redeg yn yr iard — yna Saesneg oedd yr iaith.

Yn anffodus mae hyn yn wir am yr ardaloedd hyn hefyd. Ardaloedd sy'n honni bod yng nghanol y Wynedd Gymraeg. Clustfeiniwch chi y tro nesa fyddwch chi'n pasio heibio i iard ysgol a'r plant allan yn chwarae.

Ydi'r olwyn wedi troi reit rown ys gwn i? 'Welsh Not' o fewn i furiau'r ysgol oedd y drefn erstalwm, ond roedd ein teidiau a'n tadau fel ninnau yn chwarae ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Saesneg oedd yr iaith o fewn i furiau Cownti Sgwyl Syr Hugh Owen, ond drwy'r Gymraeg y byddem ni'n chwarae ac yn cyfathrebu.

Diolch mai sŵn y Gymraeg a glywir o fewn i furiau ein hysgolion ni heddiw, ond tybed faint o'r plant sy'n byw eu bywydau yn naturiol o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg?

Os nad yw'r plant yn chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg, yna dydi'r Gymraeg ddim yn iaith fyw iddyn nhw.

\* \* \*

Mae plant yn cael pleser wrth wrando ar sŵn geiriau yn crafu yn erbyn ei gilydd, ac mi rydw i yn bendant o'r farn y dylid arwain plant i ymglywed â sŵn odl cyn eu cymell nhw i geisio llunio cerddi ar y mesur penrhydd. Yn fy marn i, fedrwyd chi ddim canu'n llwyddiannus ar fesur cymhleth y *verse libre* heb

eich bod chi wedi meistrioli'r mesurau traddodiadol gynta.

Mae'n bwysig fod plant yn cael sbort wrth *drin geiriau*, a bod y gwaith yn rhoi mwynhad iddyn nhw.

Does 'na ddim o'i le ar gyflwyno'r gynghanedd i blant dosbarthiadau uchaf yr ysgol gynradd (yn enwedig y gynghanedd lusg).

Unwaith mae plant wedi ymglyfarwyddo â'r linell seithsill, fe gewch chi hwyl hefo nhw yn llunio llinellau o gynghanedd lusg. Gwnewch rai syml sy'n cynnwys enwau llefydd, a pheidiwch a'u cymhlethu nhw hefo rhyw fanion fel proest a thrwm ac ysgafn, e.e.:

*Pwllheli:*

*Anti Nel o Bwllheli  
Dynas swel o Bwllheli  
Hogan ddol o Bwllheli.*

*Bae Colwyn:*

*Prynu dol ym Mae Colwyn  
Siarad lol ym Mae Colwyn.*

Cofiaf roi gwaith cartre i blant unwaith a chynnwys 'Caergybi' yn y rhestr — gair anodd i lunio cynghanedd lusg arno. Roedd tad un o'r plant yn ymddiddori yn y grefft, a chwarae teg iddo fe helpodd ei blentyn gyda'i waith cartre, a llunio'r linell — 'Mae sawl pyb yng Nghaergybi.

Oes, mae 'na hwyl i gael wrth drin geiriau hefo plant.

\* \* \*

Roedd hi'n arferiad gen i drafod englyn yr wythnos gyda'r plant. Englynion syml — nid englynion delweddol, niwlog. Roedd y plant yn dotio at englynion fel 'Y Nyth', Roger Jones; englyn buddugol yn un o eisteddfodau yr arian mawr Pontrhydfendigaid sawl blwyddyn yn ôl, os cofiaf.

*Y NYTH*

*Ni fu saer na'i fesuriad — yn rhoi graen  
Ar ei grefft a'i drwsiad,  
Dim ond adar mewn cariad  
Yn gwneud tŷ heb ganiatâd.*

Cyfle i ddod a syms, llywodraeth leol a barddoniaeth i un wers.

Ia, crefft unigryw i ni fel

Cymry yw'r gynghanedd, ac mae'n wyrthiol, o feddwl am yr holl linellau cynganeddol a gyfansoddwyd dros y canrifoedd, mai anaml iawn y ceir dau fardd yn taro ar yr un linell yn union. Wrth gwrs fedran ni ddim osgoi hen drawiadau.

Gofynnir yn aml beth ydi'r gwahaniaeth rhwng *englyn digri* ac *englyn ysgafn*. Fy ateb i ydi — fe ddylai *englyn ysgafn* ddod â *gwên* i'ch wyneb tra bo *englyn digri* yn peri ichi *chwerthin*. Un o fy hoff englynion digri i yw hwn:

*Dau go od yn priodi — dau yn oed  
Taid a Nain, drwy oedi,  
Dau hwyr eu 'match', diar mi  
Dau heb obaith daw babi.*

Ydach chi wedi trio egluro gwyrth y gynghanedd i Sais

rywdro. Mi fydda i yn ceisio'i oleuo fo hefo'r englyn hwn:

*Keep cool when you rule the rally — in sleet,  
Go slow rown corneli,  
To knock bullock in belly,  
To far side, not fair you see.*

\* \* \*

Mi fyddai'n ddiddorol clywed gan ddarllenwyr yr Eco, p'run yw eich hoff englyn?

Anfonwch air, a chofiwch eiriau R. Williams Parry: 'Nid map a ddylai englyn fod, ond SNAPSHOT. Efallai nad yw telyneg lawer gwaeth o fethu ei chofio, ond, NID ENGLYN OND A GOFIER.

(Anfoner at Selwyn Griffith, Crud yr Awen, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun, Caernarfon.)

## Adolygiad o A Dyma'r Ola' (Selwyn Griffith)

Y mae'r ddawn i lunio cerddi gafaelgar i blant yn un go arbennig. Mae'n rhaid ymdreiddio i'w byd a gweld pethau drwy'i llygad hwy. Dychymyg y plentyn yw dychymyg y bardd. Mae'r ddawn a'r dychymyg hwnnw gan Selwyn Griffith. Ni fedrwn lai na rhyfeddu at y modd y llwydda i nodi'r cyfarwydd mewn dull syml a ffres. Ac eto nid rhyfedd chwaith canys treuliodd flynyddoedd ar lawr y dosbarth yn trafod, gwranddo a sylwi.

I mi, mae barddoniaeth yn golygu cyfathrebu profiad. A dyna un o rinweddau cerddi plant Selwyn. Profiadau'r plentyn yw ei brofiadau ef a gall y darllennydd uniaethu'i hunan â hwy.

A dyma'r ola' o'r stabal gynhyrchiol hon — *A Dyma'r Ola'*. (Teitl addas, gyda llaw, o gofio bod arweinyddion steddffodau wedi llefaru'r geiriau ganwaith.) Ceir yma dros drigain o ddarnau amrywiol eu maint a'u cynnwys a'r teitlau'n amrywio o 'Llefrit Ffres' i 'Llyncu Mul' ac o 'Agor Sw' i 'Cyngor i Iâr.'

Mae'r cerddi'n apelio ac wedi eu hanelu at wahanol oedrannau a sefyllfaoedd. Mae yma ddarnau syml i'r lleiaf ohonom sy'n adrodd stori fer naturiol gan ddangos i'r bychan beth yw 'A' a sut beth yw 'B'. Mae'r mynegiant yn syml a'r iaith yn gyfarwydd.

Ceir ambell ddarn yn y casgliad sy'n addysgu'n ogystal ac adrodd stori, e.e. 'Oedran' a 'Sbelio'. Proses digon cymhleth ydyw dysgu iaith (yn enwedig yn gywir) ond mae'r tasgau adrodd hyn yn ysgafnhau'r dasg gan roddi pleser fe dybiwn i'r adroddwr mentrus!

Ieithwedd y darnau a naturioldeb y dweud a dyfa yn sgîl hyn sy'n apelio ataf yn y darnau ar yr un llinell. Mae'r

testunau'n codi'n uniongyrchol o'u profiadau unigryw hwy a'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau bob dydd, e.e. perthnasau arbennig, troeon trwstan, ac felly ymlaen.

Ceir yma gerddi sy'n llwyddo'n ddi-drafferth i godi gwên ac ambell ebychiad o chwerthin ond mae yma hefyd berlau o ddisgrifiadau. Dyna ichi'r ddwy gerdd 'Ar Lan Llyn' a 'Gwartheg'. Dyma chwarae â geiriau heb or-fentro y tu hwnt i feddylfryd a dychymyg y plentyn. Meddylwch am weld: 'ton ddireidus / yn rhoi peltan bach i'r dorlan (Ar Lan Llyn).

A beth am hwn?

'... hen chwarel  
a'i silffoedd  
fel dresal

yn sgleinio yn yr haul.'

(Ar Lan Llyn)

Mae yna awyrgylch unigryw sy'n ymylu ar y rhamantaidd yn y dweud.

A dyna 'Gwartheg' wedyn:

'Yna  
gorweddant yn swrth  
i bwyllgora'n fud  
yn seiati y cnoi cil.'

... a'u llygaid merddwr  
yn rhythu ar ddim.'

A beth am linellau fel y rhain: 'codant yn anniddig o ufudd' 'yn surbwchaid sobor' 'cynffonnau chwip

yn sddo'r cymylau gwybed.'

Mae yma ddarnau i bartion adrodd ac ar gyfer Noson Lawen a rheini, fel y gweddill, yn slic a chrefftus.

Gwnaeth y cyhoeddwr, Gwasg Gwynedd, waith glân a deniadol fel arfer ac mae'r pris o £3.50 am arlwy fel hyn yn hynod resymol. Fel y dywed y broliant: 'Gobeithio'n wir nad "dyma'r olaf" o law'r cymwynaswr toreithiog hwn.' Amen, meddwn innau.

GERAINT LLOYD OWEN

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**  
(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858



# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



**Urdd Bentref:** Cafodd yr aelodau gryn fwynhad o greu a dylunio yr amrywiol weithgareddau celf a chrefft, ar nosweithiau Mawrth, ar gyfer yr Urdd. Cyflwynwyd cyflenwad dda o waith graenus a safonol. Diolchir i'r rhai fu'n eu hannog a'u harwain. Diolchir hefyd i'r rhai fu'n brysyr yn hyfforddi partion canu a chôr, ynghyd â pharti dawnsio gwerin. Dymunir pob llwyddiant i chwi oll.

**Ysgol Feithrin:** Bu cyfraniad y 16 o aelodau ifanc ar lwyfan yr Eisteddfod Bentref yn hwb i galon pob un ohonom. Pob un yn adrodd a chanu a chymryd rhan mewn parti canu. Byddant yn ymuno â phlant yr Ysgol Gymuned ar 1 Mawrth. Maent wrthi'n brysyr yn gwneud 'collage' o gennin Pedr ac yn dysgu hwiangerddi. Bydd parti wedyn i ddathlu gŵyl ein nawddsant.



**Ysgol Sul Undebol Bosra:** Dyma dymor prysur i aelodau'r Ysgol Sul gyda dwy gymanfa ym mis Ebrill. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yn Hiracl, Bangor; a Chymanfa'r Annibynnwyr yn Bosra, Penisarwaun ar Sul, 21 Ebrill. Gan fod Cymanfa'r Annibynnwyr wedi mabwysiadu merch fach o Kenya, ac wedi cytuno i gasglu arian tuag at ei haddysgu, bwriedir cael y plant i ddysgu adnoda, emynau a salmau gan fawr

obeithio y cân noddwyr caredig ar gyfer y weithgaredd hon.

**Eglwys Santes Helen. Cyfarfod Trafod:** Pob nos Fercher, am 7 o'r gloch, cynhelir cyfarfodydd trafod ail ran Siars yr Esgob. Cynhelir y cyntaf ar 28 Chwefror yn Neuadd yr Eglwys; y trydydd a'r pumed hefyd yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun. Cynhelir yr ail, pedwerydd a'r chweched yn Eglwys Crist, Llandinorwig. **Gwasanaethau'r Pasg:** Cynhelir awr dawel ar ddydd Gwener y Groglith, 2-3 p.m. Bydd gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 9 a.m., ac yn Neiniolen am 10.30 a.m.

**Profedigaeth:** Estynnir ein cydymdeimlad llwyr i'r Parchg Tegid Roberts a'r teulu o golli ewythr, brawd-yng-nghyfraith a chefnder ifanc, a hynny o fewn ychydig amser i'w gilydd. Colled fawr iawn i chwi fel teulu.

**Gwellhad:** Dal yn yr ysbyty y mae Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, ac anfonwn ein cofion annwyl ati a'n dymuniadau da am wellhad buan. Da deall fod Mrs Myfanwy Parry hithau yn gwella ac yn dechrau cryfhau wedi'i thriniaeth. Dymunir gwellhad buan i bawb arall sy'n sâl yn y pentref.

**Pwyllgor y Neuadd:** Tynnwyd Clwb Cant mis Ionawr yn Llygad yr Haul, a'r enillwyr oedd: 1, R. Probert, Tai Arthur; 2, Nansi Jones, Meillionydd; 3, Rhian Roberts, Penygroes.

Nos Lun, 26 Chwefror, sefydlwyd Pwyllgor Rheoli y Neuadd Gymuned gydag enwebiadau o aelod o'r gwahanol gymdeithasau gwirfoddol sy'n defnyddio'r Neuadd i'w cynrychioli ar y Pwyllgor Rheoli. Dymunir diolch yn ddiffuant iawn i'r pwyllgor fu'n gyfrifol am ymlafnio i gael yr adeilad hardd hwn ac am eu hymroddiad diflino i'r holl weithgareddau dros yr holl flynyddoedd. Bu yr helyw yn gefnogol a ffyddlon drwy gydol yr amser gan sicrhau casgliad anhygoel o dros £30,000. Diolchir yn ddiffuant i'r swyddogion a'r holl aelodau a dymunir yn dda i'r Pwyllgor Rheoli.

**Eisteddfod Bentref:** Cynhaliwys yr Eisteddfod, nos Wener, 9 Chwefror, yn y Neuadd Gymuned am 6 p.m. Bu cystadlu brwd iawn o'r oedran meithrin hyd yr oedolion, a hynny tan hanner nos. Roedd cystadlu ym

mhob cystadleuaeth ag eithrio dwy.

Diolchir i'r holl hyfforddwyr diflino am eu gwaith caled yn ystod y nosweithiau. Diolchir yn arbennig i'r beirniaid, Mrs Madge Hughes a Mr Bill Evans, am eu beirniadaethau adeiladol i'r cystadleuwyr. Braff oedd gweld cymaint o bobl ifanc y pentref yn bwrw iddi a hynny gyda brwdfrydedd. Efallai nad oedd cymaint o raen ar gystadlu partion yr oedolion, ond y cystadlu a'r cyfrannu oedd yn bwysig! Gresynai Mrs Madge Hughes nad oedd ein pensiynwyr dihafal yn cystadlu eleni, gan y cofiai hi eu cyfraniad amhrisiadwy i'r Eisteddfod yn y gorffennol. Longyfarchiadau mawr i'r prif lenorion, Joe Hill o dan 12 oed, a Huw Tegid o dan 18 oed. Daliwch ati

— ffrwydd eisteddfodau pentrefi fu'r sbardun i nifer o feirdd a llenorion adnabyddus ein llên.

Dymunir diolch i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor, arweinyddion, cyfeilydd, beirniaid llên a beirniaid celf a chrefft; ac i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd yr Eisteddfod lwyddiannus hon. Diolchir hefyd i Mrs Shirley Roberts am ei rhodd haelionus i'r Eisteddfod. Diolch yn fawr.

**Yr Ysgol Gymuned:** Cafodd rhai o blant yr Ysgol y fraind o fynd i Theatr Gwynedd i weld plant Ysgol Glan-cegin, Bangor, yn perfformio 'Iarlles y Ffynnon'. Bu canmoliaeth mawr i'r perfformiad a chaed llawer o hwyl a phleser. Da iawn, blant Glancegin a'ch hyfforddwyr.



OSMOND SHAW  
DEINIOLLEN

GWERTHU  
-TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo  
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24 awr  
Llanberis 870545

Siop Trin Gwallt  
**SANDRA**  
Stryd Fawr  
DEINIOLLEN  
Ffôn: 872112

● Ar agor bob diwrnod o'r wythnos  
● Prisiau arbennig i bensiynwyr



## DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

**Y Seindorf:** Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Seindorf yn ystod y mis ac ailetholwyd y canlynol — Cadeirydd: Gwyn Oliver Jones; Ysgrifennydd: Meirion Jones; Trysorydd: Hefin Jones.

Llongyfarchiadau i Ellis Wyn Williams enillydd Tarian Coffa John Childs; ac i Arwel Williams enillydd Tarian Coffa Mr a Mrs O. H. Jones. Llongyfarchwn hefyd Dylan Wyn Williams a Nia Saynor ar eu dyweddïad yn ystod tymor y Nadolig, a dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol.

Bu'r canlynol yn llwyddiannus ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ddechrau'r mis — Unawd dan 10: (5) Collette Williams. Unawd dan 12: (1) Arwel Williams. Unawd dan 12-14: (2) Jennie Lyn Morris. Air Varie dan 14: (1) Jennie Lyn Morris. Pedwarawd dan 14: (1) Jennie Lyn Morris, Arwel Williams, Urien Siôn Huws a Gethin Williams. Air Varie dros 18: (1) Gavin Saynor. Deuawd dros 18: (3) Dylan Hughes a Dylan Williams. Pedwarawd Agored: (2) Ieuan Morris, Euros Williams, Dylan Williams a Colin Williams. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

**Plaid Cymru:** Enillwyr Clwb 100 am fis Ionawr oedd — £10: Miss Margaret Jane Jones, Foel, Dinorwig; £5: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel. Mis Chwefror — £10: Miss M. R. Jones, Tan y Caerau; £5: Mrs Janet Bingham, 28 Rhydfadog.

### Diolchiadau:

Dymuna Dewi a'r teulu, 75 Pentre Helen, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn eu profedigaeth fawr o golli tad. Bydd yr arian a dderbyniwyd er coffadwriaeth yn mynd tuag at Feddygfa Llanberis a Deinioleu.

Dymuna Kenneth Jones, 7 Rhes Lôn Las, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llu cardiau a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

**Y Cyngor Eglwysig:** Cynhaliwyd oedfa yn Ebeneser, nos Lun, Chwefror 12. Arweiniwyd y defosiwn gan y Parchg Tegid Roberts, a chafwyd anerchiad gan y Parchg Ganon Glyndwr Williams ar y testun 'Yr Un Eglwys Lân Gatholig'. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Margaret Griffith a Miss Jean Parc Jones yn cyfeilio.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

**Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mawrth:

3: Parchg W. R. Williams (2)  
10: Mr John Roberts (2)  
17: Parchg Trefor Jones (5.30)  
24: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)  
31: Parchg S. O. Hughes (2)

Ebrill:

7: Cyfarfod Sul y Pasg (10)  
Croeso i bawb, hen ac ifanc, cynbentrefwyr neu newydd-ddyfodiaid — yr un yw'r Gair o hyd.

**Colli'r Amserau:** Diolch yn fawr i bobl ifanc y pentref am drwsio'r amserlen bws ar wal allanol y lloches bws.


**Apêl Gŵyl Cerdd Dant:** Elw'r 'gig' a gynhaliwyd yng Nglangwna gyda Dafydd Iwan a'r Band oedd £238. Ynghyd â'r elw a wnaed o'r noson Caws a Gwin mae'r pentref a'r cylch bellach wedi llwyddo i godi'r nod a osodwyd o £400. Tybed ai Caeathro a'r Cylch yw'r cyntaf i lwyddo cyrraedd y nod?

**Y Dynfa Fisol:** Enillwyr tynfa fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Chwefror oedd — £40: Mr a Mrs Guto Roberts, Tremallt (27); £25: Mr a Mrs R. Moore, Eryl (32); £15: Mair Roberts, 4 Caeathro Bach (26); £5: Glyn Evans, Tyddyn Alice (30). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

## DRAENOG



Roedd golffwr o Lanrug yn hynod o ffodus pan darawodd bêl i'r PoWeLL. Roedd y llyn wedi rhewi'n gorn, a da hynny, neu fe fyddai wedi bod ar ben ar A-LYN.



**Wavell  
Roberts**  
CIGYDD  
London House  
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref, cigoedd parod  
i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist  
MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!



**SIOP GREFFTAU  
A CHAFFI ANTUR  
WAUNFAWR**

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti  
Jams ★ Briwgig ★ Siampw,  
Clustogau ★ Ewyn Baddon  
Olewon Aromatherapi  
Teganau Meddal ★ Mobiles Pren  
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Pa un o'r rhain sydd  
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed  
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed  
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i  
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor  
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Eurun (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisrwaun)

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed (650556)

**Diolch** i swyddogion Capel Croesywaun am gael defnyddio'r festri ar gyfer plygu'r rhifyn diwethaf o'r Eco, ac i'r criw da a ddaeth i wneud y gwaith.

**Diolch:** Dymuna Evelyn Anderson a theulu'r ddiweddar Mrs M. A. Owen, Bod Arfon, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl. Dymunant hefyd ddiolch am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd er cof amdani, sydd wedi eu cyflwyno i Feddygfa'r pentref.

**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlwn yn ddwys â Dr Kenneth Leathley Jones, Cefn Waun, yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Eirlys Jones, Tegfryn.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu y ddiweddar Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd, ac at deulu y diweddar Mr Thirley, Stad Tref Eilian.

**Adref o'r Ysbyty:** Rydym yn falch o ddeall fod Paul Evans, Rhoslyn, Stad Tŷ Hen, yn gwella ar ôl gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty, ac hefyd Siôn Tudur, mab bychan Paul a Valmai a fu yn yr ysbyty am gyfnod.

Croesawn hefyd Mrs Parry Williams, Gwynfa, ac Ifanwy Rhisiart, Bod Afon, adref ar ôl iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion at Mrs Beti Griffith, ac at Mr Rol Williams, Ardwyn, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Bedyddiadau:** Ddydd Sul, Chwefror 4, yn Eglwys Castle Square, Caernarfon, bedyddiwyd Christian, mab bychan Talina a David Coles, Bro Waun.

Ddydd Sul, Chwefror 11, yng Nghapel Bethel, gyda'r Parchg Gwilym Parry yn gweinyddu, bedyddiwyd Anest Bryn, merch fach Linda a Bryn Griffith, Perthi.

**Priodasau:** Llongyfarchiadau i Sarah Morris, 3 Ael y Bryn, ar ei phriodas â Grant Turner. Maent wedi ymgartefu yn Norwich.

Llongyfarchiadau i Meirion Williams, Bro Waun, ar ei briodas â Sandra o Fangor.

Dymuniadau gorau i'r ddau bâr ifanc yn eu bywyd priodasol.

**Dathlu Pen-blwydd:** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bethan Roberts, 10 Bryn Golau, ar gyrraedd ei deunaw oed; ac i Miss Jones, 1 Tref Eilian, a ddathlodd ei phen-

blwydd yn 89 mlwydd oed.

**Ymdeoliad:** Dymunwn yn dda i Mrs Nancy Williams, 2 Bro Waun, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel gweinyddes amser cinio yn Ysgol y Waun.

**Yr Eira:** Daeth yr eira yn sydyn ddechrau'r mis a'i rwystrau a'i drafferthion i amryw o'r pentrefwyr. Bu'n rhaid i rai gerdded adref gan adael eu ceir ar Allt Pen Cefn, ond roedd y dynion eira a safai ar gae'r Ygol ac yng ngerddi'r pentref yn dystion amlwg fod y plant wedi mwynhau'r cwrldid gwyn a ddisgynnodd yn dawel arnom.

**Llwyddiant:** Llongyfarchiadau mawr i Rhodri Siôn, Pant Teg, sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd, ar ei lwyddiant fel aelod o cast 'Bedlam' — sioe o'r wythdegau a gynhyrchir gan fyfyrwyr ar eu blwyddyn derfynol — sydd ar daith drwy Gymru.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cyfarfu'r Gymdeithas nos Lun, 19eg Chwefror. Y gŵr gwadd oedd Mr Meirion Hughes, Caernarfon, a



Y grŵp 'Almanac' fydd yn brysur iawn yn ystod y misoedd nesaf.

chafwyd hanes 'Colera yng Nghaernarfon yn 1866' ganddo. Mrs Mary Vaughan Jones oedd yn y gadair, a diolchwyd i Mr Hughes gan Siôn Jones.

**Almanac:** Wedi taith lwyddiannus yn ystod gwyliau'r haf gyda 'End of Culture' — band o Lundain — rhaid oedd i Almanac beidio perfformio gan fod Deian Elfryn, y drymiwr, yn cael triniaeth i'w benliniau. Ers iddo wella mae Deian ac Eilir Jones, y ddau gitarydd, wedi bod yn ymarfer

gyda aelodau newydd, sef Ellen Roberts o Gaernarfon sy'n canu, a Siôn Llwyd, hefyd o Gaernarfon, sy'n chwarae'r gitâr fas.


Felly mae'r band yn ôl yn perfformio gyda llawer o waith yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. Byddant yn gwneud llawer o 'gigs' gyda'r grŵp 'Moniars' cyn mynd i Fanceinion a Chaer efo 'End of Culture'. Maent hefyd yn trefnu taith i berfformio yn y Swistir gyda 'End of Culture'.

**Malurio'r Coed:** Yn dilyn ymateb cymaint ohonoch sy'n bryderus am y coed a faluriwyd ar y ffordd i'r pentref o Gaernarfon, carwn eich hysbysu mai nid y Cyngor Sir oedd yn gyfrifol. Rwyf wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned i gysylltu ag arbenigwr coed i geisio arbed rhywfaint ar y sefyllfa a'u trin yn bwrpasol. — Cynghorydd EURIG WYN

## DRAENOG

Rwyf wedi cael clywed am ryw dro digon anffodus a gafodd un o'm cyfeillion agosaf (cyfaill a roddodd sawl stori bigog yn y gorffennol) yn ystod y cyfnod o rew ac eira diweddar. Mae o'n credu na welodd neb mohono'n llithro ar y rhew. Ei union eiriau

yn ôl pob sôn oedd "Gobeithio nad oes neb wedi fy ngweld i neu mi fydd na gartwn yn Eco'r Wyddfa!". Wel dwi'n sicr na fydd o ddim llai ei BARCH gan neb o'r darllenwyr ond efallai y bydd gan ambell i un a bigwyd gen i yn ddiweddar yn gwennu pan welwch nhw y tro nesaf.



## Aled Jones

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Phlymio

Y GORLAN  
FFRWD CAE DDU  
BONTNEWYDD  
(01286) 830412



J.M.  
JONES  
A'I FEIBION  
GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU

## Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol  
Cerrig o bob  
math ar gael

Ffôn:  
C'fon 672898 (dydd)  
C'fon 676285 (nos)

## Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.




# ECO'R IFANC

## GRID GEIRIAU

DEWI  
SANT  
NON  
TYDDEWI  
MAWRTH  
CYMRU  
PEULIN  
MYNACH  
DYFRWR  
EGLWYS

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | N | T | Y | D | D | E | W | I | R |
| E | E | Y | M | A | W | R | O | S |   |
| U | Y | D | D | E | R | C | H | T | H |
| L | D | E | G | M | A | W | R | T | H |
| P | E | U | L | I | N | M | P | E |   |
| M | W | I | W | L | Y | O | T | G |   |
| Y | I | D | Y | C | M | L | N | L |   |
| N | O | E | S | D | E | W | A | W |   |
| O | R | W | R | F | Y | D | S | Y |   |



Ail drefnwch  
y llythrennau -  
a chewch  
enwau rhai  
o'r Seintiau,  
get y llefydd  
y buont yn  
gweithio.

**SNOWDONIA PARC**

**WAUNFAWR Ffôn: 650218**

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

**E. W. Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

**Ffôn: 870202 a 870272**

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI



# CYSTADLEUAETH

Fedrwch chi ateb y cwestiynau hyn?

1. Beth oedd sgôr gêm rygbi Cymru yn erbyn Iwerddon?
2. Ble fydd Stadiwm Rygbi newydd Cymru?
3. Beth mae Bryn Terfel eisiau ei weld yng Nghaerdydd?
4. Beth oedd enw'r llong olew a aeth i drafferthion ger arfordir Penfro?
5. Rheolwr newydd pa dîm pêl-droed yw Jan Molby?
6. Sawl diwrnod sydd ym mis Chwefror eleni?
7. Beth yw dyddiad Dydd Gŵyl Ddewi?
8. Ble cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni?

Fedrwch chi osod y trefi hyn ar fap Cymru.

1. CAERNARFON
2. BANGOR
3. CAERGBY
4. LLANDUDNO
5. CAERDYDD
6. ABERYSTWYTH
7. ABERTAWE
8. Y DRENEWYDD
9. PWLLHELI
10. MACHYNLLETH
11. DOLGELLAU
12. CAERFYRDDIN
13. Y RHYL
14. WRECSAM
15. LLANDUDNO.

# CORNEL JÔCS

Huw: Doctor, Doctor, rwy'n meddwl fy mod i yn bêl snwcer.

Doctor: Dos i ben draw'r ciw!

PA WLAD SY'N CASAU'R NADOLIG?

Twrci!

PA GYLCH SY'N SGWÂR?

Y cylch paffio.


BETH GEI DI O DDEIALU 666?

Plismon ar ei ben i lawr!

'Dad, ma'r dyn ma'n casglu at y pwll nofio newydd.'


'Rho wydraid o ddŵr iddo fo 'ta!'

Glywsoch chi am y bachgen rhyfedd o Gaernarfon. Pan oedd o'n ddistaw am un funud roedd o'n cael pum ceiniog a slap ar ei ben. Pan oedd o yn 25 oed roedd ganddo ganpunt, ac roedd o'n fflat!



★ Tacsî

★ Maes Awyr



Yfwch chi  
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

**R. M. (DIC) PARRY**

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

**TAWELFA, PENISARWAUN**

**Ffôn: (01286) 870846**



# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

**Diolchiadau:** Dymuna Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati pan oedd yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig ac hefyd diolch am bob arwydd o gydymdeimlad mewn cardiau, arian a phob ffordd arall, ar ôl colli mab mor annwyl. Diolch i Ward Glyder, i'r meddygon teulu ac yn enwedig i'r plant am eu gofal a chariad dros Len am yr ychydig amser a dreuliodd yn yr ysbyty.

Dymuna Mrs Marina Jones, Fron Oleu, Hermon, ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am y caredigrwydd mawr a gafodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno, ac wedyn ar ôl dod adref. Diolch am y cardiau, blodau a'r galwadau ffôn, i staff Ward Maesdu, Ysbyty Llandudno, a Meddygfa Waunfawr.

Dymuna Mrs S. O. Edwards, Cilau, Ffordd Glanffynnon, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion, blodau, galwadau ffôn, a phob ymweliad a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Mai Parry, Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau, ymhell ac agos, am y caredigrwydd a dderbyniodd yn dilyn triniaeth llawfeddygol yn Ward Tudno, Ysbyty Gwynedd, ac wedi iddi ddod adref. Diolch am bob ymweliad, galwadau ffôn a'r llu cardiau a rhoddion.

Dymuna Arthur a Dilys Jones, 18 Hafan Elan, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd tra yn yr ysbyty ac am y caredigrwydd ar ôl dod adref. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd i Arthur a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd.

Dymuna Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

**Plaid Cymru:** Nos Fercher, Mawrth 6, cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, gyda

Dafydd Wigley, A.S., yn ŵr gwadd. Bydd adloniant gan Arfon Gwilym. Mae tocynnau ar gyfer y cinio i'w cael gan Olwen Llywelyn (650200) neu Cliff Williams (674878).

Mae'r gangen yn anfon ei chofion at Myfanwy Parry, Penisarwaun, a Nan Humphreys, Tan-y-coed, a dymunir adferiad buan i'r ddwy ar ôl eu llawdriniaethau yn yr ysbyty.

**Llongyfarchion:** Llongyfarchwn Aaron Wyn Jones, Glanffynnon Bungalow, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Mawrth 8fed.

Llongyfarchwn hefyd Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar y 18fed o Chwefror.

**Gwellhad:** Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r canlynol: Mrs Joan Griffiths, Pant Tirion; Mr John Griffith Jones, Hafan Elan; Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan; Mrs Kenny Owen, Hafod Elan; Mrs Mai Parry, Bryn Heli; Mr Gwyn Cadwaladr, 7 Gwelfynydd; Mrs Elaine Williams, Llwyfor; Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan; Mr Myrddin Williams, Penterfyn; Mrs Gould, Avondale, Ffordd yr Orsaf; Mr Robert Jones, Egryn Villa; Mrs Gwyneth Roberts, Bryn Elan; ac i bawb arall sydd ddim yn mwynhau iechyd ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlwn** â Mr Arthur Jones, Hafan Elan, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd o'r Felinheli yn ddiweddar. **Ysgol Sul Capel y Rhos:** Daeth cynulleidfa deilwng i wasanaeth y teulu, fore Sul, Chwefror 18. Trefnwyd y gwasanaeth gan Meirwen Lloyd, Arolygwr yr Ysgol Sul, gyda'r plant i gyd a rhai oedolion yn cymryd rhan.

Rhoddwyd peth o hanes ysbytai y maes cenhadol yn India gan Mrs J. C. Williams, Bod Fair, ac apeliodd am gefnogaeth deilwng i gasgliad arbennig y bore tuag at Apêl yr Ysbytai. Roedd cyfanswm y casgliad yn £120, a dymuna'r swyddogion yr eglwys ddiolch i bawb am eu cefnogaeth hael.

Cymerwyd rhan hefyd gan Ann Jones, Sioned Larsen, Gwenda Roberts a Doris Adlam.

Diolchodd Iwan Roberts i'r plant am gyflwyno'u gwaith mor dda, i'r athrawon am eu dysgu, ac i bawb arall a gymerodd ran. Diolchodd Meirwen Lloyd i gyfeillion di-enw am eu rhodd o lwyfan symudol ar gyfer

defnydd yr Ysgol Sul. Gwerthfawrogi'r haelioni yma yn fawr gan yr athrawon a'r plant.

Croesawyd y gynulleidfa am baned a sgwrs yn y festri ar ddiwedd yr oedfa, ac yno bu cyfle i longyfarch Mrs Enid Whiteside Thomas ar ddathlu pen-blwydd arbennig ac i ddiolch iddi am ei gwaith diflino yn gofalu am y capel mor ffyddlon. Cyflwynwyd basged o flodau i Mrs Thomas gan Donna Griffith ar ran swyddogion y capel.

Bydd y plant yn cael cyfle yn ystod y mis i ddysgu y Maes Llafur ar gyfer yr Arholiad Llafar, a gynhelir eleni fore Sul, Mawrth 17, yn yr Ysgol Sul. Gobeithiwn y bydd cefnogaeth arferol i'r arholiad eleni eto.

**Merched y Wawr:** Estynnwyd croeso cynnes i bawb ar noson finio oer gan y llywydd, Meirwen Lloyd. Anfonir cofion annwyl at Nan Humphreys, Eileen Thomas, a Myfanwy Parry, wedi'u triniaethau yn yr ysbyty. Dymunir gwellhad buan i Joan hefyd. Dymunir pob llwyddiant i blant yr ardal yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, Sadwrn, 2 Mawrth. Aelodau'r gangen sy'n gyfrifol am y lluniaeth yn ystod yr Eisteddfod ac erfynnir am gyfraniadau o frechdannau, teisennau bach neu fara brith gan yr aelodau ar fore'r Eisteddfod.

Gwestai'r mis oedd Ffion Johnson, Fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd. Dangoswyd sleidiau o waith y fferylllydd ac yna cafwyd sgwrs a chynghorion gwerthfawr ar sut i ymdopi ag asthma a phroblemau dyrys a chythryblus ni'r merched wrth heneiddio! Diolchwyd i Ffion am noson gyfeillgar a buddiol, gan Menna. Diolchodd Pat i Jean, Beryl a Gwen am y baned boeth a'r bisgedi. Enillydd y raffl oedd Menna. Edrychir ymlaen at ddathlu Gŵyl Ddewi ar 12 Mawrth, gyda bwffe yn y Bistro, Llanberis. Arian (£10) rhag blaen i Meirwen neu Meryl, os gwelwch yn dda.

**Ysgol Gynradd Llanrug:** Dymuna Siôn Bedwyr ddiolch yn ddiffuant i'r prifathro a'r staff i gyd am eu croeso rhadlon a'u cynghorion gwerthfawr



Ffion Johnson, fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd, fu'n trafod 'lechydd Merched' gyda changen Llanrug o Ferched y Wawr yn ddiweddar.

iddo yn ystod ei gyfnod arsylwi yn yr ysgol yn ddiweddar. Diolch i chwi oll.

**Newyddion o'r Ysgol Gynradd:** Yn ystod y tywydd oer mae rhai o'r plant wedi bod yn cadw'n gynnes drwy ddawnsio gwerin a dawnsio disgo! Ymarfer yr oeddynt ar gyfer y 'Noson o Ddawns' a gynhaliwyd yn Theatr Gwynedd, nos Fercher, 21 Chwefror. Cafodd y plant gyfle i berfformio ynghyd â phlant o bob rhan o Wynedd.

Llwyddodd Lucy Louise Stevens, Bl. 6, fel aelod o dîm gymnasteg Eryri ac enillodd dlws Tim y Flwyddyn a drefnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Arfon. Cafodd Gareth Roberts, Bl. 5, wobwr hefyd am gymryd rhan mewn chwaraeon arbennig i blant oedd wedi derbyn trawsblaniad.

Yn ystod gwyliau hanner tymor bu Urien Deiniol, Bl. 5, yn cystadlu mewn gêmâu tenis a daeth yn bumad trwy ogledd Cymru. Derbyniodd Karen Evans, Bl. 5, fathodyn 'Sialens Nofio, lefel 2' yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Enillwyd Clwb Cyfeillion mis Chwefror oedd — £24: Cai Dyfan; £12: David Pritchard; £10: Mr a Mrs B. Griffith, Anedd Wen; £5: Katie Davies, 5 Hafan Elan; £4: Gareth Alun Owen.

**BWS A THOCYN am £7.50**

**i weld JELI BEBIS**

gan Miriam Llywelyn ('Rallt Deg')  
(Drama fuddugol Eisteddfod Bro Colwyn)

yn Theatr Gwynedd, Bangor  
nos Wener, 15 Mawrth

Cysyllter â:

Gwyndaf Jones (01286) 674669 neu  
Dafydd Wh. Thomas (01286) 673515

Rhaghybysiad:

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno

**LLIFEIRIAU**

gan W. S. Jones (Wil Sam)  
YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG  
NOS FERCHER, 24 EBRILL 1996

am 7.30 o'r gloch

Oedolion £3 (plant £1.50)

Trefnir gan Bwyllgor Canolfan Llanrug

Alwyn a Sarah Jones

**RACCA**  
**PENISARWAUN**

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm.

★ Wyau 'Free Range'  
Ar agor saith diwrnod




**870605**

**LLYSIAU AR  
GYFER PICLO**

**Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol**



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



MOT

Speculist



**GEMINI**  
SERVICE CENTRE

Car neu Fan  
Petrol neu Disel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed £££ ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car

**AVW**

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559





## DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Cinio Gŵyl Ddewi:** Daw tymor y Gymdeithas Undebol i ben gyda chinio Gŵyl Ddewi yng Ngholeg Pencraig, Llangefni, am 12.30 o'r gloch pñawn Mercher, Mawrth 6ed. Er mwyn cwblhau'r trefniadau dylai pawb sydd am fynd i'r cinio roi eu henwau naill ai i Miss Marian Jones neu Mrs Hannah Mary Roberts mor fuan ac sydd bosib.

Cafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni cyfeillion talentog ac amryddawn o Waunfawr, ar nos Iau, 25ain o Ionawr, a chafwyd gwledd o ganu ac adrodd. Dyma enghraifft o adloniant cefn gwlad ar ei gorau, a chan wneud hynny mewn awyrgylch cartrefol dros ben. Noson ddifyr iawn. Llywydd y noson oedd Miss Nellie Wyn Jones ac fe dalwyd y diolchiadau gan Mrs Betty Lloyd Roberts.

Yn anffodus bu'n rhaid gohirio sgwrs Mrs Grace Davies, Bethesda, ar 'Affrica', oedd i'w chynnal nos Iau, Chwefror 8fed, oherwydd y tywydd garw. Bwriedir croesawu Cwmni Drama Llanberis i'r Gymdeithas yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Gwaeledd:** Yng nghanol tywydd gaeafol misoedd Ionawr a Chwefror nid yw rhai o'r pentrefwyr wedi bod yn mwynhau iechyd da. Rydym yn falch o ddeall fod Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir, gartref erbyn hyn wedi cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd ar ôl iddi syrthio ac anafu ei phen. Mae Miss M. J. Jones, Y Foel, hithau gartref erbyn hyn ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Ar hyn o bryd mae Mrs Betty Lloyd Roberts yn dal i fod yn Ysbyty Gwynedd ond yn gwella bob dydd. I bob un ohonoch, ac i bawb arall sydd heb fod yn


mwynhau iechyd da, daliwch i wella. Y cysur mwyaf i bob un ohonom yw bod y gwanwyn bron hefo ni a choeliwch neu beidio fe fyddwn yn dathlu'r Pasg o fewn mis.

**Diolch:** Dymuna Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, a theulu y diweddar Mr Abram Meredydd Jones, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth.

**Dal i Ddisgwyl am Drefnwr Plygu:** Rwy'n siŵr y cytunwch nad yw'n edrych yn dda bod lle gwag wrth enw Dinorwig yn y rhestr a drefnwyd i blygu Eco'r Wyddfa. Fel y cofiwch mae angen person i wirfoddoli ar gyfer trefnu bod Dinorwig — unwaith y flwyddyn — yn gyfrifol am blygu'r Eco. Gorchwyl unwaith y flwyddyn ydyw. Os oes diddordeb gan unrhyw un yna fe fyddai golygyddion yr Eco yn falch o glywed gennyh.

**Llwybr Cae Goronwy:** Fel y soniwyd yn gynharach bydd cais perchenog Cae Goronwy i wro'r llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio i'w gartref yn cael ei wrando mewn Ymchwiliad Cyhoeddus rywbryd yn y dyfodol agos. Os dymunwch fynegi gwrthwynebiad i'r cais hwn yna byddai Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn falch o glywed gennyh. Mae rhai wedi ymateb yn barod ond mae'n debyg bod gan lawer mwy ohonoch yma yn Ninorwig — neu mewn ardaloedd eraill — farn i'w fynegi ynglŷn â'r cais. Cysyllter naill ai â Selwyn Griffith, Clerc y Cyngor, Crud yr Awen, Penisarwaun, neu y Cynghorydd Glyn Tomos. Llauer o ddiolch.

## 50 MLYNEDD YN ÔL



Ysgol Sul Eglwys St. Mair, Dinorwig, 50 mlynedd yn ôl — o'r chwith i'r dde: Mair Jones, Eirlys Perkins (gynt), y diweddar Mr Bleddyn Roberts, Grace A. Hughes (gynt), a Mair Foulkes.

## CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion, gan ddymuno gwellhad buan, i Mrs N. Williams (Anti Nel), Pantafon, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon; ac i Mr Hugh G. Jones, Bod Elan, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, a fu'n anffodus iawn yn syrthio gan dorri ei chlun, ac sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

**Undeb y Mamau:** Cynhaliwyd cyfarfod yn yr Ysgol Gymuned, nos Lun, 5 Chwefror. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Yr oedd rhai materion i'w trafod. Bydd pwyllgor y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal yn Feed My Lambs, Caernarfon, ar 11 Mawrth. Cytunodd tair o'r aelodau i'n cynrychioli.

Y gŵr gwadd oedd Mr Bobby Haines, Caernarfon, a chafwyd noson ddiddorol iawn yn gwrando arno yn sôn am ei blentyndod yn nhref Caernarfon. Yr oedd ganddo amryw o luniau hen adeiladau — sydd bellach wedi eu dymchwel — i'w dangos ac fe fwynhawyd y noson gan bawb. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor, a diolchwyd iddynt ac i'r gŵr gwadd gan Mrs Kath Jones. Enillwyd y raffl gan Karen. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 4, yn Hafan Elan, Llanrug. **Newyddion o'r Ysgol:** Yn ystod y mis daeth Mr Simon Evans, Swyddog

Addysg Parc Cenedlaethol Eryri i ddangos sleidiau ac i sgwrsio'n ddifyr iawn gyda phlant Bl. 5 a 6, fel rhan o'u thema ar 'Y Tywydd'. Treuliodd yr un plant ddeuddydd yng Nghanolfan Addysg Agored Rhyd-ddu yn gwneud gwaith maes a chyfeiriannu. Diolch i Mrs Anita Long am drefnu'r gweithgareddau amrywiol ac i Alison Mercer am ddod atom i wneud gwaith Batik. Mwynhawyd yr ymweliad yn fawr er roedd pawd wedi blino'n lân ar ôl cyrraedd adref — gan gynnwys Anti Sioned a Mrs Hughes.

Dymunwn yn dda iawn i Donna a Martin Judge sydd bellach wedi dechrau yn Ysgol Llanrug. Gobeithio y byddant yn gwneud ffrindiau newydd yn fuan iawn ac y byddant yn hapus iawn yno.

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Keith, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio ei fod yn teimlo'n well erbyn hyn ac yn dal i gryfhau.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Ionawr i Miss Elisabeth Roberts, Gaerwen; ac i Rhodri ap Llwyd (eto'r mis yma!) o Lanrug.

**Yr Urdd:** Mwynhawyd 'Noson Gwersyll' gan yr aelodau oedd wedi ei threfnu gan Mrs Rita Williams. Ar hyn o bryd mae prysurdeb ar gyfer yr Eisteddfod a'r gwaith crefft. Pob dymuniad da i bawb sy'n cystadlu.

## GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

**675951**

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

**ERIC  
JONES**  
PENISARWAUN  
PEINTIWR  
AC ADDURNWR



Joban Dda  
am Bris  
Rhesymol

Ffôn: 872421

## GORSAF BETROL



**BERAN**

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo  
Cylchgronnau ● Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd ● Wyau  
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

## W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANOLOG

Pant Tirion, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr  
Nwy  
Cofrestredig  
Corgi



Aelod o'r  
Association of  
Mechanical  
Services  
Contractors

Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr



## BOL GWLAD gan Y Gwalch

Mi gafodd Emrys gamcordyr tros y Dolig, beth oedd o wedi ei flysio ers tro. Anrheg gan y wraig a'r ddau blentyn oedd o cogio, ond y fo oedd wedi gofalu ei fod o'n cael y teclyn tasa'r gwir yn cael ei ddeud. Ar ben hynny, mi gafodd gap Cosac gan ei fam a thei i fynd hefo fo, ac fel tasa hynny ddim digon, mi brynodd anorac iddo'i hun, ac nid rhyw hen beth chwaith, ond un debycach i beth fasa rhywun yn ei roi amdano i fynd i Begwn y Gogledd.

Bora dydd Dolig, roedd o allan yn yr eira peth cynta — fel plentyn deugain oed — hefo'r camcordyr, yn ffilmio'r plant yn peledu eu gilydd. Wedyn aeth i gongl y gegin i dynnu llun y musus yn paratoi'r cinio, ac wedi iddo fynd yn brin o wrthrychau aeth dros y ffordd i berswadio yr hen Huw Lewis i ddwâd i gogio tynnu sled y plant, ac mi ddaeth hwnnw, er y basa ganwaith gwell ganddo fo fod wedi aros wrth ei dân yn ei oed o.

Ond doedd dim dal ar yr hen Em. Diwrnod wedyn roedd o allan ar y mynydd yn ei gôt a'i gap a'i dei, yng nghanol yr eira yn tynnu lluniau rhai mor benwan â fynta, ond yn cymryd tua pum awr i grafangio i fyny Clogwyn y Rhaeadr, ac yn treulio cymaint o eiliadau i ddwâd i lawr yn bowltris.

Ond buan yr aeth i ddyfalu beth i ffilmio nesa, ac mi aeth a'i broblem tros y ffordd at Huw, oedd o natur ddireidus ac yn un da am roi syniadau ym mhennau pobol.

'Wnest ti ddim meddwl gneud rhyw raglan teleffisio?' meddai.

'Be ydych chi'n feddwl?'

'Wel dwad dy fod ti yn mynd i ryw ffarm i holi'r bobol a thynnu eu lluniau nhw. Fasa dim rhaid i ti roi gwybod iddyn nhw ymlaen llaw, jest syrthio arnyn nhw fel barcud ar gyw — mwy gwreiddiol ti'n gweld. Mae 'na ormod o hól drama-neud ar betha fel'na. Fydd dim rhaid i ti fynd i ryw 'ranch'. Tasa ti'n cychwyn hefo tyddyn. Mi ddo i hefo chdi.' Ac mi aeth.

Y peth nesa roedd y ddau yn y car yn teithio'r wlad yn chwilio am dyddyn, ac yr oedd Emrys yn ei gap a'i dei a'i gôt newydd, yn rhoi ei hun yn rêl dyn teleffisio, ac o'r diwadd daethant ar draws lle'r oeddant nhw yn ei ffansio; rhyw fwthyn diarffordd o dan rhyw foel yng nghanol annibendod a sbwriel a hen haearn. Atebwyd y drws gan hen fachgan mewn het frethyn a siwt oedd o'n debygol o fod wedi priodi ynddi rhyw drigain mlynedd ynghynt, ac yr oedd yr het yn gribol o fwyd ieir. Ac ar hynny rhuthrodd rhyw fytheuaid allan hebio iddo, fel tasa fo'n chwilio am rywun i'w roi ar draws ei geg.

'Sut ydych chi heddiw?' gofynnodd Emrys, a oedd wedi'i apwyntio'i hun yn llefarydd. 'Fasa chi'n licio mynd ar y teleffisio?'

'Waeth gen i fynd na pheidio,' meddai'r hen fachgan. 'Be ydych chi isio i mi neud?'

'Wel, dest cael sgwrs bach a thynnu lluniau'r lle a'r stoc,' meddai Emrys.

'Roeddwn i'n meddwl mai yr hen ffarmwr bach tindrwm hwnnw o'r Sowth fydd yn gneud hynny,' meddai'r hen fachgan.

'Mae o wedi cael gormod o felumelys,' meddai Huw oedd byth yn brin o atebion.

'Tewch â deud,' meddai'r hen fachgan, ac ar hynny ymddangosodd

rhyw hen wreigan hefo llygada mell y tu ôl iddo, ac mae'n rhaid ei bod hi'n fwy ariangarol.

'Oes 'na bres yno fo?' gofynnodd heb ragymadrodd.

Roedd o'n gwestiwn nad oedd y ddau gynhyrchydd wedi'i ragweld, ond gwnaethant eu gorau.

'Wel, wel, oes,' meddai Emrys yn gloff. 'Yn does?' gan droi at Huw.

'Oes yn tad,' meddai hwnnw, 'mi gewch siec.'

'Rhoswch i mi daro fy welingtons,' meddai'r hen fachgan ac mewn munud roedd y tri yn mynd ar draws y buarth.

'Neith y ci 'ma rhywbath?' gofynnodd Emrys yn betrus wrth weld yr anifail yn sgnwfflian o gwmpas ei afl.

'Dim ond ei fusnas,' meddai'r hen fachgan, ac ar hynny cafodd fagliad ar draws y ci nes yr oedd ar ei fol ar lawr, a dyma hwnnw yn manteisio ar y cyfla i ddechra cnoi ei welingtons o, a chym'a fo ddim o'i berswadio i roi'r gora iddi nes y cafodd o gic gan Huw.

Wedi codi'r dyn ar ei draed, dyma fo'n deud, 'Welis i rioed mohono fo'n gneud y fath beth o'r blaen. Ych gweld chi'n ddiarth mae o reit siwr. Dydach chi ddim am roi hynna yn y ffilm debyg?'

Ar ôl iddo gael ei sicrhau y basa pob dim yn cael ei olygu, aethpwyd i feudy isel i weld Brithan, chwedl ynta, a thaflodd Huw ei hun i ysbyd y darn drwy holi am hanes y fuwch a'i chyn-dadau, ac yn ôl yr hen fachgan roedd rheini o bobty wedi cipio cwpannau dirifedi mewn sawl sioe ar hyd a lle. Ond yr oedd Huw yn deud wedyn, yn ôl siâp ei chefn hi, na fasa fo ddim yn synnu tasa 'na gamal yn ei phedigri hi yn rhywla.

'Triwch ei godro hi,' meddai'r hen fachgan wedyn, 'i wneud y peth yn fwy naturiol,' ac estynnodd rhyw bisar budr i Huw. Ond nid cynt nag yr oedd hwnnw wedi gollwng ei hun ar y stôl, na chafodd gic nes yr oedd ar wastad ei gefn yn y rhigol a'i ben ôl yn sig tail i gyd, ac ar ôl i Emrys ei godi ar ei draed, gofynnodd i'r hen ddyn,

'Sgynnoch chi rhwbath llai peryg i ddangos inni?'

'Wel oes tasa chi wedi meddwl gofyn ynghynt,' meddai'r hen fachgan. 'Dowch i weld yr iâr fawr.' Dilynodd y ddau ddyn teleffisio o hebio'r beudai eraill, gan ddyfalu sut iâr oedd hon, ac a oedd hi'n chwanog i ddefnyddio ei thraed neu ei dannedd.

Ond chadwyd nhw ddim mewn penbleth yn hir. Beth ddaeth i'w hwynebu nhw rownd congl rhyw gwt ond ostrich, ac er mwyn sbio i'w wynab o oedd braidd cyn uchod â'r cwt ei hun, roedd yn rhaid iddyn nhw blygu eu gwaria fel tasa nhw yn edrych ar y Tŵr Eiffel, a doedd yna ddim golwg or-groesawgar ar hwnnw. Chafodd yr hen Huw ddim cyfla i holi ynghylch ei bedigri o. Roedd y deryn fel tasa fo wedi cymryd yn erbyn Emrys ar ei union. Mi gythrodd i'w gap Cossac o yn ei big a'i sgytian o fel llygoden fawr, ac erbyn i'w berchennog gael y cap yn ôl wedi andros o sgarmas, roedd hwnnw yn edrych fel croen cwningen wedi bod mewn cymysgwr concrit. Ond doedd y deryn ddim wedi gorffen dangos ei anniddigrwydd. Cythrodd wedyn i dei Emrys a dechrau ei lyncu, ac wrth weld

wyneb ei gyfaill yn dechrau troi'n biws, neidiodd Huw i wddf yr ostrich, ond fasa waeth iddo fo drio tagu peipan landar ddim. Yr hyn a achubodd yr argyfwng oedd i'r hen fachgan dynnu dyrnaid o blu'r deryn, a gollyngodd hwnnw ei afael ar ei union, a'i gluo hi gyda glan yr afon i fyny am y foel honno, fel tasa fo yn rasio cangarws yn Awstralia.

'Dyna ydi ei mistar hi,' meddai'r hen fachgan. 'Dechrau ei phluo hi. Fedar hi ddim diodda cael ei phluo. Ond welis i mohoni hi yn gneud y fath beth o'r blaen. Ych gweld chi yn ddiarth mae hi.'

'I be ydych chi'n cadw rhyw fwystfil gwyllt fel'na?' gofynnodd Huw ar ôl iddo gael ei wynt ato.

'I fridio ydych chi'n gweld. Mi rydw i flys ei ffarmio nhw, hynny ydi, taswn i'n cael hanas ceiliog i sathru hon.'

'Lle cewch chi un felly?'

'Roedd yna un yn cael ei adfarteisio tu draw i'r dre, ac mi rois gortyn am goes yr iâr a dechra ei cherddad hi yno. Ond pan aethon ni i'r lôn fawr, dyma rhyw lori yn ei dychryn hi. Mi risiodd a fy nhynnu i ar fy ngwynab, ac mi ddengodd oddi arna i.'

'Be ddoth ohoni hi?' gofynnodd Emrys.

'Welis i ddim golwg ohoni hi am fisoedd er imi roi ei henw hi yn y papur.'

'Ella na fedar hi ddarllan!' meddai Huw, ond chymrodd yr hen ddyn ddim sylw o'r gwamadrwydd.

'Ond rhyw noson dywyll mi ddaeth 'na hen foi drino i'r drws 'ma, yn wyn fel y galchan. Deud roedd o fod o wedi cael ei ymlid ar y foel 'na gan rhyw greadur main, gwyn a phen bach ganddo fo. Roedd o'n siwr mai rhyw fodolyn o'r gofod oedd o, wedi dwâd i lawr mewn sosar i drio dal pobol y ddaear i fynd adra hefo fo i'w dangos. Bora wedyn pan godais i, beth oedd ar garreg y drws yn noeth lymyn ond yr iâr fawr, heb ddyrmaid o blu arni hi. Meddwl roeddwn i ei bod hi wedi cael cymaint o fraw hefo'r lori honno nes y bwriodd hi ei phlu. Mi glywsoc am bobol yn mynd yn foel ar ôl cael eu dychryn. Ond roeddwn i'n ei weld o yn gyfla rhy dda i'w golli erbyn hynny; i'w rhoi hi yn y popty. Roedd hi wedi ei phluo yn barod ydych chi'n gweld, ac mi gës yr hen fodryb i ddal ei phen hi ar y blocyn. Ond pan oeddwn i'n taro, mi aeth o'i gafael hi. Mi gës slap hebio ac mi dorrais goes y fwyell. Mi ddengodd yr iâr i fyny i'r foel wedyn. Yn y fan honno mae ei siambar sori hi. Ond

mi ddaeth yn ei hól ymhen sbel wedi aildyfu ei phlu. Ac yma mae hi. Ond welais i rioed mohoni hi yn gneud y fath beth o'r blaen, na'r fuwch chwaith, o ran hynny. Ych gweld chi yn ddiarth ddaru nhw reit iswr. Ond dowch i weld yr offis.'

Roedd Huw ac Emrys wedi mynd i sylu ar eu gilydd; y ddau yn amlwg yn dyfalu beth oedd amcan sefydliad felly yn y fath le. Ond ar ôl yr hen ddyn yr aethon nhw i fyny ar hyd glan yr afon honno oedd yn dod i lawr o'r foel ac yn fawr ei hymchwedd o'r eira dadmeiriol, nes dod i lecyn lle'r oedd dau bolyn wedi eu gosod o lan i lan, ac yr oeddynt yn cynnal cwt bychan, fel cadair 'sedan' o'r hen amser, uwchben y lli, ac yr oedd yno blanc wedi ei osod ar osgo er mwyn ei droedio i gyrraedd y cwt.

'Cerwch i fyny i chi gael gweld,' meddai'r hen ddyn.

'Beth ydi o?' gofynnodd Emrys.

'Tý bach siwr iawn,' meddai Huw.

'Fasat ti ddim isio plymar na 'Syrup of Figs' hefo hwnna. Ty'd i fyny i ni gael gweld.'

Ond erbyn iddynt gyrraedd y cwt roedd hi'n amlwg na fwriadwyd iddo erioed ddal dau. Dechreuodd siglo yn afreolus fel llong mewn storm.

'Mi fydd yn rhaid imi fynd odd'ma,' meddai Emrys ar ôl cael cip ar yr afon drochionog drwy'r twll. 'Mi rydw i yn un siort sala ar y môr,' a rhuthrodd am y lan, ond yn ei frys sylwodd o ddim ar ben yr hoelen wyth oedd yn sticio allan o un o'r polion. Clywyd rhyw swm arall uchwlaw rhu yr afon, ac erbyn i Emrys gael ei draed ar dir solet, roedd llawes yr anorac fel côt bwgan brain.

'Wel dyna fy mhresanta Dolig i i gyd wedi mynd,' meddai gan ddal ei afael yn dynnach yn y camcordyr, fel pe bai hwnnw yn mynd i'w achub rhag boddi.

'Fyddwch chi dro bach â rhoi pwyth yn hwnna,' meddai'r hen ddyn, 'Ond dowch i'r tý i chi gael llun o'r hen fodryb.'

'Ydych chi'n meddwl bod y fan honno yn rhywfaint saffach na bod allan?' gofynnodd Huw.


'Rhoswch i mi fynd i ddeud wrthi ych bod chi'n dwâd. Mae hi dipyn yn gysetlyd hefo pobol ddiarth,' ac i ffrwdd â fo.

Rhoddodd hynny gyfle i'r cynhyrchwyr draffod doethineb mynd i'r tý o gwbl.

'Mae nhw'n mynd wyddost ti,' meddai Huw, 'hefo'r rhaglenni fel

(I'w barhau ar dudalen 17)

## Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac  
Ffril wedi'i blethu  
(bocs)

a Chlustogau  
gyda zip

Amcanbris  
am ddim

**BANGOR**

**(01248) 364493**

unrhyw adeg



## ADOLYGIAD O: O BLAID BWYD (PLAID CYMRU ARFON)

Yn berlau ar fy silff lyfrau coginio mae casgliadau o rysetiau a gyhoeddwyd gan wahanol fudiadau ac *O Blaid Bwyd*, gan Blaid Cymru Arfon yw'r em ddiweddaraf.

Mae diwyg y llyfr yn dderbyniol iawn a phob rysait yn cael tudalen ei hun — dim angen troi gyda dwylo'n llawn toes! Gosodwyd y rysetiau yn drefnus gyda'r cynhwysion wedi eu rhestru'n ofalus er mwyn osgoi gwneud camgymeriadau ac mae'r dull yn hawdd ei ddilyn bob tro.

Mae'n braf gwybod hefyd mai ffefrynau'r cyfrannwyr sydd yma ac felly, heb wneud smonach go iawn, yn mynd i lwyddo yn amlach na pheidio wrth eu trio.

Mae rhywbeth yma at ddant pawb — yn sawrus, yn felys, yn gig, yn lysiau o'n 'gwlad ni' i'r cyfandir. Rhwng ei gloriau gofala am eich cysur — ffisig peswch os yn anhwylyd, neu liciwyr mwyar duon i'ch nerthu pan fo angen.

Yn bersonol, buaswn yn hoffi gweld enw'r cyfrannwr ar waelod y rysait (mae rhestr o'u henwau yng nghefn y llyfr) er mae'n siŵr ei bod yn braf dyfalu pwy gyfrannodd beth.

Yr wyf wedi mwynhau pori drwy'r llyfr a thrio fy llaw yn barod at un neu ddwy rysait ohono.

**Pris y llyfr yw £2.50 ac mae ar werth gan swyddogion canghennau Plaid Cymru Llanberis, Deiniolen, Bethel, Waunfawr, a Llanrug. Gellwch hefyd ei archebu gan Olwen Llywelyn (01286) 650200.**

Bydd holl elw o werthiant y llyfr yn mynd i gronfa Swyddfa Plaid Cymru yng Nghaernarfon. Ewch ati i'w fwynhau!

BETHANNE WILLIAMS

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwyd**



Argraffu a Ffotogopio Lliw  
Lluniau ar gyfer pasport  
Crysau-T

Gwasanaeth Dylunio Pen  
Llythyrau, Cardiau Busnes  
ac ati, Ffotograffiaeth ...  
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr  
LLANBERIS**

Ffôn/Ffacs: 870200

## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

**Merched y Wawr:** Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Chwefror gan y llywydd, Gwyneth Jones. Llongyfarchodd yr ysgrifennydd, Joyce Gaffey, ar enedigaeth merch fach, Bethan Heledd, chwaer fach i Alun a Rob. Hefyd llongyfarchwyd Rita Williams, Elan, ar ddod yn nain unwaith eto — ganed mab, Guto Siôn, i Manon.

Llongyfarchwyd rhai o blant yr aelodau, sef Lois Hughes, Stad Rhos-lan, ar ddod yn gyntaf am lefaru yn Eisteddfod Garndolbenmaen; Dewi Griffiths, Llwyn Eithin, ar ennill y wobr gyntaf a'r ail mewn cystadleuaeth canu corn Bandiau Gogledd Cymru; a hefyd Aled Jones, Y Fachell, ar gael ei ddewis yn gadeirydd Ffederasiwn Ffermwyr Ieuaic Eryri. Pob llwyddiant i'r tri i'r dyfodol.

Treuliwyd noson (chwyslyd!) yng nghwmni Delyth Bryan yn gwneud aerobics. Roedd y banded yn dda iawn ar ôl yr holl ymarfer ac fe'i gwnaed gan Rhian Hughes, Elen Ellis ac Alys Jones a hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Eirly Sharpe. Diolchwyd i bawb gan Deilwen Hughes — un o'r ychydig rai oedd gan ddigon o wynt ar ôl i ddiolch!

Cinio Gŵyl Ddewi fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 13 Mawrth yn y Split Willow, Llanfairfechan, a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Harri Parri, Caernarfon. Enwau a thaliadau erbyn 1 Mawrth i Mair Read neu Eirlys Sharpe. Bydd y bws yn cychwyn am 7 o'r gloch o Benrhos.

**Eisteddfod Bentref:** Yn dilyn pwyllgor a gynhaliwyd yn ddiweddar, adroddwyd gan y trysorydd, Morgan Griffith, fod y sefyllfa ariannol yn ffafrio cynnal eisteddfod eto eleni. Y dyddiad fydd 2 Tachwedd 1996. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus nos Fawrth, 25 Mehefin yn y Neuadd Goffa pryd y gwahoddir aelodau hen a newydd i fynegi eu barn a derbyn awgrymiadau ar gyfer cystadlaethau newydd.

**Clwb 100 Yr Ysgol:** Enillwyr Chwefror oedd — £20: Bessie Williams, 1 Bron y Waun, Penisarwaun (34); £15: Ieuan a Menai Jones, Bronallt, 4 Tan-y-buarth (39); £10: Sioned E. F. Williams, 3 Bro Rhos (24); £7: G. W.

Griffith, 17 Bryn y Môr, Y Felinheli (35); £5: Jean M. Jones, Wenallt, Bethel (43). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Nos Fawrth, 20 Chwefror, cafwyd sgwrs ddifyr iawn am eirfa a barddoniaeth



Gwynfor, Irfon a Robin yn cynnal y traddodiad o fechgyn Bethel yn cystadlu ym Marathon Mini Porthaethwy.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Dymuno'n Dda:** Anfonwn ein dymuniadau gorau i Bryn Evans, mab Mr a Mrs Hugh Evans, Min-y-don, ar ddechrau ei yrfa newydd.

**O'r Ysbyty:** Dymunwn wellhad buan i Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian, yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Eglwys M.C. Brynrefail:** Yn ystod Suliau mis Mawrth disgwylir y canlynol i wasanaethu:

- 3: Mr J. H. Hughes, Llanberis (5.30)
- 10: Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda (2)
- 17: Mr J. L. Williams, Bangor (10)
- 24: Parchg Eric Jones, Bangor (5.30)
- 31: Parchg Harri Parri, Caernarfon

(5.30)

Cynhelir yr Ysgol Sul am 2.00, ac eithrio Mawrth 10fed.


## TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn  
Ffôn: 872276

**Gwellhad:** Dymunwn wellhad buan i Mrs Nan Humphries, Pant Bryngwyn, ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno. **Cydymdeimlwn** â Mrs Hefina Roberts a'r teulu, Awelfryn, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, sef Mr Tom G. Pritchard, Nant Peris.

**GWYN JONES  
FFENESTRI ERYRI  
GARTH ISAF, LLANRUG  
(01286) 650764**

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio  
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio  
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O  
BROFIAD YN Y MAES

**GERAINT  
OWEN**

Gosodwr  
carpedi a phob  
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd  
WAUNFAWR**  
Ffôn: Waunfawr  
650552



## TAID AC EIRA MAWR 1956

Y Parchedig Idris Thomas, Trefor, yn dwyn i gof atgof teuluol o boptu'r Nadolig dros ddeugain mlynedd yn ôl.

Yn aml iawn mewn bywyd mae ambell berson, neu le, neu rywbeth a welwn, yn gallu dwyn hanes yn fyw i'r cof. Y person yn y cyswllt yma yw Taid; y lle yw mynwent Llanllyfni; a'r peth a welir yw eira. Yng nghyswllt yr eira rwyf yn ysgrifennu hyn o lith ddydd Mawrth, 6ed Chwefror, pan ddaeth eira mawr y gaeaf i fro yr Eifl ac i Wynedd yn gyffredinol ond nid yw yr eira hwn a ddisgynnodd yn ddim o'i gymharu â'r eira mawr yr wyf am sôn amdano.

### MYNWENT LLANLLYFNI

Tua diwedd mis Ionawr oedd hi, a minnau ar ôl gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Ioan Talysarn wedi cyrraedd mynwent Llanllyfni gerllaw Eglwys St. Rhedyw i wasanaethu claddu gweddillion yr ymadawedig. Roeddwn wedi cyrraedd yno o flaen y teulu, ac heblaw am gerbyd y torrwr beddau nid oedd neb arall yn y fynwent. Rwyf yn hoff iawn o fod mewn mynwent ar fy mhen fy hun. Mae bod yno yn union fel agor llyfr hanes bro, yma mae'r cymdeithasol a'r personol, yr atgof a'r myfyrdod tawel yn dod ynghyd. Cerddais i lawr y llwybr at fedd fy nhaid a nain, a bedd fy modryb, a darllen y geiriau:

#### MAGGIE E. JONES

Hoff ferch Owen a Kate Jones  
4 Clynog Road, Penygroes.  
A fu farw Mawrth 24, 1926  
yn 10 oed.

*Mag ddwys edmygodd Iesu — fe'i hoffodd  
A Duw ddanfonodd am dani fyny*

#### Hefyd ei mam

#### KATE JONES

Hunodd Tach. 10, 1941 yn 65 ml. oed  
*Dal fi fy Nuw dal fi i'r lan.  
Dy ewylls Di a wneler.*

#### Hefyd ei thad

#### OWEN JONES

a hunodd Rhagfyr 21, 1956  
yn 80 mlwydd oed.

\* \* \* \*

### GOFAL TAID

Ni chefais adnabod fy nain na chwaer fy mam ond am gwa wyth mlynedd mae gennyf gof am fy nhaid, sef tad fy mam. Bu farw tad a mam fy nhad cyn i mi gael fy ngeni. Caiff plant eu cyfoethogi o gael teidiau a neiniau, ni ddaeth hynny i mi, ond diolchgar wyf i mi gael un taid am rai blynyddoedd a chafodd yntau wyth mlynedd ohonof i.

Yn ôl fy mam, roedd wedi gwirioni arnaf ac mae 'na ddigon o dystiolaeth o hynny yn y pentwr lluniau sydd gan mam yn yr albwm yn Ninorwig. Mae mwy nag un llun ohonof yn eistedd yn y goets ag yntau yn sefyll wrth fymyl. Cefais felly y faint a fynnir o awyr iach y

llethrau, a chafodd taid gyfleoedd i fynd allan o'r tŷ i'w flasu hefyd.

Collodd taid un o'i blant yn ddeg oed, sef ei ferch Maggie, a 'sgwn i ai oherwydd hynny y rhoddodd y fath sylw i mi. Wrth i mi hel meddyliau fel hyn wrth y bedd dyma lais y torrwr beddau yn torri ar y distawrwydd, 'Pwy sydd gynnach chi yn fan'ma?' meddai.

'Bedd Taid,' meddwn. Ac o glywed hyn, meddai,

'O ardal Deiniolen mae eich teulu yn dŵad, ynte. Y fi, os cofiwch chi, a gorodd fedd eich tad a 'rargian roedd y diwrnod hwnnw yn un hegar i fyny yn y topia 'na.'

Cyn imi ddweud dim dyma'r torrwr beddau yn ychwanegu, 'Ew, dwi wedi cael diwrnodiau go ryff i fyny 'na ar hyd y blynyddoedd, ma' rhywun yn cofio dyddiau felly, yn tydi?'

Tybed, meddwn yn dawel wrthyf fy hun, a gafwyd gwaeth tywydd nag a gafwyd o bobtu Nadolig 1956?

### O BLWYF LLANLLYFNI I EIRA DINORWIG

Ganed fynhaid, sef Owen Jones, ar 27 Medi 1876, a hynny ym mwthyn Pantdu, plwyf Llanllyfni, yn fab i Robert a Margaret Jones. Labrwr yn un o chwareli'r dyffryn oedd Robert Jones. Priododd â fy nain, sef Kate Jones o Church Cottages, Llanwnda, ar 19 Rhagfyr 1902, yn Eglwys Llanwnda gyda'r Parchg D. L. Williams yn gwasanaethu. Cyfeiriad fy nhaid pan oedd yn priodi odd 2 Baptist Street, Penygroes.

Treuliodd fy nhaid flynyddoedd olaf ei fywyd gyda 'nhad a mam ac ar ddydd byrraf 1956 (21 Rhagfyr) bu farw ar aelwyd Bro Elidir. Gwnaed y trefniadau angladdol ar gyfer claddu fy nhaid ar ddydd Gŵyl Sant Steffan, ond ychydig wyddai y teulu y byddai'r eira yn chwarae ei ran yn nhrefniadau'r angladd.

Ddydd Iau ar ôl y Nadolig yn hytrach na dydd ar ôl y Nadolig y claddwyd Taid ym mynwent Llanllyfni. Ar Ŵyl Sant Steffan yn 1956 roedd eira mawr yn Ninorwig a Deiniolen ac yn yr holl ardal a gwelwyd golygfa ar y ffordd rhwng fy nghartref ag Eglwys Llandinorwig nas gwelwyd o'r blaen a hwyrach byth eto. Oherwydd yr eira mawr, a dim gwybodaeth lawn chwaith sut oedd y tywydd yn Llanllyfni, daethpwyd i benderfyniad mai'r peth gorau fyddai cwtogi'r siwrnai i Ddyffryn Nantlle drwy ddod â chorff Taid mewn arch o Ddinorwig i Eglwys Llandinorwig. Byddai yn haws rywfaint i barhau ar y siwrne o fynd â chorff Taid i Lanllyfni o Landinorwig pe byddai y tywydd gaeafol yn llacio rhywfaint. Er mai ond cwta ddwy filltir sydd rhwng Dinorwig a Deiniolen gwyddom ni, blant y llethrau, yn rhy dda fod gwahaniaeth mawr rhwng ansawdd y tywydd.

### YR ARCH AR SLED

Yr olygfa ryfeddol a welwyd ar Ŵyl Sant Steffan 1956, ddeugain mlynedd yn ôl bellach, oedd un ar bymtheg o ddynion yn dod i lawr Gallt y Foel (yr allt hir rhwng Dinorwig a Deiniolen) a phob un ohonynt yn gafael mewn rhaff, ac yn tynnu, a hynny yn ofalus ar yr eira trwchus, arch fy nhaid.

Nid dyna ddiwedd y stori anhygoel oherwydd gosodwyd yr arch ar sled, a wnaed y bore hwnnw yn arbennig ar gyfer yr achlysur anghyffredin, gan y trefnydd angladdol lleol, y diweddar Mr John Evans, Tanyfoel, gwaelod Gallt y Foel. Mor ddyledus oedd, ac yw fy mam o hyd, i John Evans ac i'r dynion a ofalodd bod rhan gyntaf siwrnai fy nhaid i'w orweddfa ym mynwent Llanllyfni wedi mynd yn weddol hwylus, o ystyried yr eira mawr.

Yn ôl yr hanes roedd pobl pob tŷ rhwng Bro Elidir ag Eglwys Llandinorwig wedi gweld y siwrnai ar eira mawr Gŵyl Sant Steffan 1956. Am rai dyddiau gorweddaid fy nhaid yn ei arch ger

allor Eglwys Crist, Llandinorwig, cyn i hers, nid car llusg y tro hwn, ei gyrchu i'w feddrod. Ond, doedd y siwrnai olaf chwaith heb ei phroblemau gan nad oedd yr eira wedi clirio digon i fynd ar hyd y ffordd arferol o Deiniolen i Lanllyfni bu'n rhaid i'r orymdaith angladdol fynd drwy'r Felinheli er mwyn cyrraedd mynwent Llanllyfni.

### CLADDU YN LLANLLYFNI A'R TYWYDD GARW

Y cludwyr yn Llandinorwig a mynwent Llanllyfni oedd y Mri O. R. Williams (gŵr drws nesa yn Ninorwig), O. C. Roberts (ewythr imi), A. Griffiths a T. R. Edwards. Ys gwn i pwy oedd yr un ar bymtheg o gludwyr ar Ŵyl Sant Steffan a ddaeth â taid i Eglwys Llandinorwig. Gwn pwy oedd un ohonynt, sef fy nhad — pwy oedd y gweddill?

Yn gwasanaethu wrth fedd taid yn Llanllyfni roedd y Rheithor, sef y Parchg Trevor Jones, a Ficer a churad plwyf Llandinorwig, y Canon R. Glyndwr Williams a'r Parchg D. N. Nicholson. Pedwarugain oed oedd taid pan fu farw ac yn sicr ni freuddwydiodd am ei daith olaf drwy eira mawr Dinorwig yn 1956.

Yng nghylchgrawn Deoniaeth Arfon, rhifyn Ionawr 1957 (cylchgrawn newyddion i holl blwyfi y Deoniaeth), dywed y Canon R. Glyndwr Williams am fy nhaid:

*'Yr oedd wedi gwneud ei gartref gyda Mr a Mrs Hugh Thomas ers rhai blynyddoedd, ond ym mhlwyf Llanllyfni yr oedd ei wreiddiau. Bu'n weithiwr gonest a chaled ar hyd ei oes, ac yr oedd yn ŵr tawel, diymhongar, a hoffus dros ben.'*

Sylwais, yn rhifyn Ionawr 1957, bod llawer o golofnwyr y plwyfi yn sôn am y tywydd garw. Dyma'r hyn a ddywed y Canon Glyndwr Williams:

*'Fe gofir yn hir am y Nadolig hwn (1956) gan arwed y tywydd.*

*Yr oedd yn hollol amhosibl cynnal gwasanaeth yr hwyr yn yr un o'r ddwy eglwys. Nid oes gan neb gof am hyn yn digwydd o'r blaen.*

*Nos Sul ar ôl y Nadolig, a'r tywydd eto'n arw iawn, cafwyd*

Am eich  
**ANGHENION  
ADEILADU**  
mawr a bach  
**MASNACHWYR**  
A "D.I.Y."

am  
**BRISIAU  
CYSTADLEUOL**  
dewch at

**BRYN**  
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol  
Glanmoelyn  
LLANRUG**  
Ffôn: 677482



**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



Gosber a Charolau yn St. Mair (Dinorwig) a Naw Llith a Charolau yn Llandinorwig. Diolchwn yn gynnes iawn i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaethau hyn.

Yng ngholofn newyddion Llanberis ceir hyn:

'Dyma eiriau cyfaill o'r Nant (Nant Peris) — "anfynych y clywir gair da i ieuencid y genhedlaeth hon. Felly, y mae'n werth cofnodi eglwysyddiaeth rhai ieuainc Eglwys St. Peris ar nos Nadolig 1956. Trwy storm echrydus o wynt ac eira, brwydrodd deg ohonynt i'r hen Eglwys, tri ohonynt — yn cynnwys ein organydd — wedi cerdded dros filltir o ffordd. Er bod trwch o eira i mewn yn ogystal ag allan, ac er gwlyped y traed, canwyd pedair Carol, a diweddwyd trwy adrodd y Colect a'r Gras."

Hanesion o gyfnod y Nadolig 1956 sy'n cadarnhau fod y tywydd yn arw ac sydd hefyd yn cadarnhau nad oedd y tywydd gerwin yn ddigon i gadw rhai o'r saint rhag addoli, fel yn achos Nant Peris.

#### DAL I GOFIO

Aeth deugain mlynedd heibio ers claddu Taid yng nghanol eira mawr 1956, ac ni welwyd golygfa debyg i honno o'r arch yn dod i lawr Gallt y Foel. Er bod deugain mlynedd wedi mynd heibio fe gofir am y cyfan gan lawer.

Ddeuddydd cyn imi sgwennu'r truth hwn euthum i siop bapur newydd ar Faes Caernarfon i nôl rhai o'r papurau bro a werthir yno a thu ôl i'r cownter roedd gwraig, o'r enw Sandra, nas gwelais ers blynnyddoedd.

'Un peth dw i'n ei gofio am dy deulu pan oedwn yn byw yn Ninorwig,' meddai, 'sef arch dy daid yn cael ei chario hefo sled oherwydd yr eira mawr'

Oherwydd prinder lle ar y garreg fedd ym mynwent Llanllyfni nid oedd modd rhoi unrhyw eiriau o goffadwriaeth i'm taid, Owen Jones, ond i mi, mam a'r teulu byddai y geiriau hyn o lyfr y Salmau wedi dweud y cwbl a ddigwyddodd ar ôl ei farwolaeth: 'yr oedd yn eira'.

## Y GWALCH

Parhad o dualen 14

hyn, i roi sebon meddal i'r musus: deud cwc mor dda ydi hi, neu ofyn ydi hi'n perthyn i Ferched y Wawr, neu'n gwau neu ryw bath clyfar felly. Mae'n rhaid i ti gadw yr ochr iawn i'r merchad.'

Ac i'r tŷ â nhw, ond roedd yna chwaneg o syndod ar eu cyfer yn y fan honno. Roedd y gegin fyw fel 'tasa yna fellten wedi dŵad i mewn ac wedi methu â chanfod ei ffordd allan. Yn y gongl bella roedd yna AGA fawr, unwaith yn ôl ei golwg wedi bod yn felyn ond erbyn hyn wedi ei strempio hefo braidd mwy o saim a grefi na fuo erioed yn ei phopty.

'Does gen i ddim spread i chi,' meddai'r hen wraig llygada mellt, 'ar rybudd mor fyr. Gym'wch chi sangwijas?' A chyn i'r ymwelwyr gael cyfla i ateb, ychwanegodd, 'Hannar ta ar hyd y dorth ydych chi isio?'

Roedd hi'n sgleisio'r dorth hefo twca lladd mochyn ac yn taenu coco sych ar y brechdanau. 'Mae Now yn sgyt am rhain, yn dwyt?'

'Ydw,' meddai hwnnw. 'Ond mi fasa'n well gen i gael powliad o fara llefrith ar ôl hen hambyg fel'na.'

Roedd hi wedi gneud powliad iddo fo mewn dau funud a'i sodro o'i flaen, ac yr oedd o'n gneud sŵn fel hwfar wedi syrthio i bwl o ddŵr.

'Cym'wch banad,' meddai hi wedyn wrth Huw gan ddal rhyw debot du uwch ei ben.

'Fiw imi gyffwrdd te ar ôl fy oparesion,' meddai hwnnw, ddim yn siŵr erbyn hynny p'run a'i tynnu sgws hefo hi am Ferched y War ynteu sôn am Wylliaid Mawddwy fuasai orau am deflesion da. Roedd gan Emrys esgus da i 'sgoi'r sangwijas. Roedd o'n brysur hefo'i ffilmio. Ac yr oedd yr hen fachgan erbyn hyn wedi gweld gwaelod ei bowlan, a dyna fo yn ei rhoi hi o dan y bwrdd i'r ci ei llyfu, ond roedd hi'n ei hôl o'i flaen mewn dau funud gan y wraig, yn llawn o de.

'Mae Now yn licio ei banad,' meddai hi. 'Ond mi wn i beth fasa'n gneud lles i chi,' a diflannodd i'r cefn. Ond roedd hi'n ei hôl mewn dau funud hefo potel yn llawn o hylif du. 'Triwch hwn,' meddai hi gan dywallt i ddau wydr.

Roedd yr ymwelwyr yn gyndyn o brofi'r ddiod i ddechra, ond pan fentrodd Huw, oedd yn hoff o'i lasiad, cafodd ei siomi ar yr ochr orau. 'Mae hwn yn stwff go iawn,' meddai a pherswadiodd Emrys i godi

ei wydr, a'r un oedd barn hwnnw. 'Beth ydi o?'

'Gwin ysgaw,' meddai'r hen fachgan. 'Mae hi'n egspyr ar neud hwn.'

A hynny oedd yn wir, mae'n rhaid, a phan gafodd y ddau wahoddiad i lenwi eu gwylau wedyn, doeddau nhw ddim yn fyr o estyn eu breichiau ac wedyn ar ôl hyn, a thrachefn, nes yr oeddau nhw wedi mynd yn reit diri-dano ac yn sicr eu bod nhw mewn nefoedd o le, ac yr oeddau nhw yn ddigon parod erbyn hynny i atab cwestiynau yr hen wraig oedd yn cael eu saethu atyn nhw fel pys, ac yn ystod y Rhodd Mam roeddau nhw wedi deud eu busnas personol i gyd. Roedd hi wedi cael gwybod am forgej Emrys ac fel yr oedd ei wraig o unwaith wedi ffansio'r postmon, ac fod yr hen Huw yn cael cymwynasa ychwanegol gan yr 'home help' am ei fod o wedi addo rhoi ei henw hi yn ei ewyllys. A phan oeddau nhw yn barod i fynd adra, doeddau nhw ddim mewn ffitt o stad i fynd ar y lôn. Ond fynnai Emrys ddim derbyn y ffaith nes iddo wneud trwyn ei gar yn smwt yn erbyn congl y beudy.

'Rhoswch, mi â i a chi i'r lôn hefo'r tractor,' meddai'r hen fachgan. 'Mi gewch fws o'r fan honno.' A hynny a fu, ac yr oedd Emrys erbyn hyn yn canu dros y wlad ac wedi llwyr anghofio am ei gar.

'Mae'n rhaid fod yr hen fodryb wedi cymryd atoch chi ych dau,' meddai'r hen ddyn wedyn. 'Welis i rioed mohoni hi yn cynnig gwin i neb o'r blaen.'

Fedrai Huw ddim gwrthsefyll y demtasiwn, 'Ein gweld ni'n ddiarth oedd hi reit siŵr — 'run fath â'r fuwch a'r ostrich.'

Cyraeddasant adra yn ddiogel beth bynnag, er i yrrwr y bws fygwth rhoi Emrys i lawr am fynnu dal ei gamera yn wyneba'r bobol. A fedrai hwnnw ddim diodda nes gweld ei ymdrechion ar y sgrin.

Roedd y ci yno yn cnoi welingtons yr hen ddyn, a Huw yn cael cic. Ond dim ond pen yr ostrich yn llenwi pob man ruthrodd am gap Emrys. Wedyn rhyw ddarlun anelwig mewn ffrâm gron, anodd ei dehongli, nes i un o'r plant ar ôl clywed y stori, awgrymu mai'r afon oedd o drwy dwll y tŷ bach. Roedd yr hen fachgan a'i bowlan yn glir a'r sŵn llowcio. Ac wedyn yn olaf, yr hen wraig yn nrws y tŷ yn chwifio ei breichiau fel octopys yn arwain bandia pres, a'r ymadawiad ar y tractor. Ond roedd hi a'r tŷ ar ogwydd fel Tŵr Pisa: y gwin mae'n debyg wedi rhoi osgo ynddyn nhw.

Roedd y ddau gynhyrchydd, fodd bynnag, yn meddwl eu bod nhw wedi cael hwyl di-fai — y tro cynta felly. Ond dydw i ddim yn meddwl y cawn nhw byth eu comisiynnu.

**MAE'R  
SAMARIAID  
YN GWRANDO  
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR  
354646**

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo  
**MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE**  
**40 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY**  
**Ffôn:  
(0248) 714043  
neu C'fon 674520**  
Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc

**SPAR**

**Y STORFA  
LLANRUG**

(Richard a Meirwen  
Williams)

**Ffôn: C'fon 672790**

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch cartref  
yn ardal Llanrug

**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,  
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: Llanberis 870253**

Ffenestri

**CELTIC**

Windows

**2 TAN Y BRYN, BETHEL**

**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL  
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —  
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



**(01286) 671181  
(0831) 326160**





## FFOTOGRAFFAU DU A GWYN GWEITHDAI'R CHWAREL

### Arddangosfa o waith MALCOLM GRIFFITH, Dinorwig

O Chwefror 10fed hyd Mawrth 31ain eleni gall y cyhoedd weld Amgueddfa Lechi Llanberis o safbwynt anarferol, pan agorir arddangosfa ffotograffig newydd yno.

Tynnwyd y ffotograffau du a gwyn o'r gweithdai gan Mr Malcolm Griffith o Ddinorwig. Byddant yn rhoi golwg newydd ar yr adeiladau hyn, lle gwneid holl waith cynnal a chadw y chwarel ar un adeg. Bydd cyfle i'r cyhoedd weld rhannau o'r Amgueddfa mewn gwedd hollol wahanol.

'Rwyf yn gyfarwydd a'r Amgueddfa Lechi ers blyneddau lawer, a sylweddolaf pa mor bwysig ydyw i'r ardal,' meddai Mr Griffith, sydd wedi byw yn Ninorwig ers 1980.

'Dros nifer o flynyddoedd rwyf wedi tynnu nifer o luniau o'r adeilad o'r tu allan, a thynnais luniau llonydd pan oedd y cynhyrchiad o 'Traed Mewn Cyffion' yn cael ei ffilmio yma. Wedi hynny teimlais ei bod yn hen bryd imi dynnu lluniau o du mewn i'r adeilad.'

Cafodd y detholiad o 12 ffotograff ei dynnu gan Mr Griffith yn ystod y gwanwyn a'r haf y llynedd, ac mae'n crisialu

ei ddiddordeb yn yr ardal a'r adeilad. Maent yn rhoi golwg wahanol ar yr Amgueddfa nad yw'n amowg i bobl sy'n ymweld â hi am y tro cyntaf.

'Tynnwyd y ffotograffau ar ôl treulio oriau lawer yn yr Amgueddfa — weithiau heb gamera — er mwyn ymdeimlo â nawr y lle. Mae'n adnodd gweledol grymus.'

Dysgodd Mr Griffith grefft ffotograffydd heb hyfforddiant ffurfiol, ond mae'n gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant ffil a theledu yng Nghymru, ac fel ffotograffydd masnachol ar ei liwt ei hun. Cyhoeddwyd ei waith ym mhapurau'r Guardian a'r Times, ac mewn gwhanol lyfrau, cylchgronau a thaflenni. Mae wedi cynnal arddangosfeydd un dyn yn Theatr Gwynedd ac yn Llyfrgell Caernarfon. Bu'n ddarlithydd ffotograffiaeth yng Ngholeg Gwynedd ac ar hyn o bryd mae'n astudio celf a dylunio yn y coleg.

Bydd yr amgueddfa ar agor yn ystod dyddiau'r wythnos, ond nid ar benwythnos, o 10 a.m. hyd 4 p.m.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

## NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440



John Paul yn dangos ei lythyr o Rwanda.

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Heddwen a Dafydd Pritchard, Fron Rhedyn, ar enedigaeth eu merch fach, Kate Lloyd, ar Chwefror 17, chwaer fach i Manon a Miriam.

**Gair o Ddiolch:** Fel y gwyddoch danfonwyd cannoedd o focus cyn y Nadolig i Bosnia a gwledydd eraill llai ffodus. Yn ddiweddar derbyniodd John Paul Jones, 1 Bro Glyder, lythyr o Rwanda gan ddyn o'r enw Jonas oedd yn ysgrifennu ar ran plant ei ardal. Yn y llythyr roedd yn diolch am yr anrhegion.

**Marwolaeth:** Yn dawel yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis, ar Chwefror 19, bu farw Griffith Closs Williams, 3 Tanybryn, yn 92 mlwydd

oed. Bu'n byw yn y Nant drwy gydol ei oes a bu'n gweithio fel ffitar ar y trenau yn Chwarel Dinorwig am flynyddoedd lawer. Roedd yn frawd i Lizzie, sydd hefyd yng Nghartref Bron Eryri, a hefyd y diweddar Johnnie, Margiad a Nellie. Bu'r angladd ddydd lau, Chwefror 22, yn eglwys Sant Peris lle daeth tyrfa fawr ynghyd. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Marwolaeth:** Trist yw cofnodi marwolaeth Tom Gwyn Pritchard, Bronallt, 6 Nant Ffynnon, yn 75 mlwydd oed, ar Chwefror 18. bu farw yng nghartref ei ferch, Alwena, yn Llanllyfni, ar ôl blwyddyn o gystudd, lle bu ei dair merch, sef Eirlys, Alwena a Hefina yn fawr eu gofal amdano. Bu'n flaenor yn eglwys Rehoboth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac ef oedd ysgrifennydd a thrysorydd yr eglwys ers rhai blyneddau. Gwnaeth ei waith yn raenus a dirwgnach gan gadw ei olygon ar ei Waredwr bob amser. Roedd bob amser yn gwrtais a boneddigaidd ac yn gymydog cymwynasgar i bawb yn y Nant. Bu'r angladd ddydd Gwener, Chwefror 23, yng Nghapel Rehoboth, lle daeth tyrfa fawr ynghyd. Cydymdeimlir ag Eirlys, Alwena a Hefina a'u teuluoedd, ac â'i frodyr a'i chwaer.

### FFRWYDRAD

Amynedd yw hedyn heddwch — ei dwf Achos dyfais, dryswch, Dial yn creu anialwch, Wedi'r briw, dim lliw, ond llwch.

Richard Lloyd Jones



**ORIEL  
PLAS  
GWYN**

**Pontrug, Caernarfon**

Gwasanaeth Fframio Lluniau  
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau  
gweiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

**Bistro**  
**LLANBERIS**  
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS


**LLE DA I WLEDDA**

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)  
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas  
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.  
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —  
nos Wener olaf bob mis

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**  
**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

Ffôn/facs: 650291



Dewis eang o

Welyau a '3P/Suites'.

Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc — allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Ar Agor  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
Ar Gau  
Sul a Mercher

**GWYNETH ROBERTS**

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen


Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

**BECWS ERYRI**

Stryd Fawr, Llanberis 870491



# CROESAIR MAWRTH



## AR DRAWS

1. Ewin aderyn yn farc cain ar ôl colli pen yr iâr (7)
5. Arwydd Damian (6)
9. Fel y rhai sy'n mynd i'r coleg? (9)
10. Pen moel (5)
11. Rhai sy'n rhoi'r gyfraith mewn grym (6)
12. O sŵn crio fe ymddengys un sy'n uchel ei gloch (8)
15. Cartref y bugail (7)
17. Cymell rhai eraill i gymysgu yn goman (7)
23. Ailegnio (8)
25. Y ferch sy'n croesawu'r llongwyr adra? (6)
26. Blasau neu arogl (5)
27. Yn erbyn newidiadau cymdeithasol neu boliticaidd (9)
28. Y solar plexus yw'r ganolfan berthnasol (6)
29. Un main, ers talwm (7)

## I LAWR


1. 2 i lawr, rhai bach, surion (6)
2. Bu rhain yn bwysig ar adegau ym mywydau Adda ac Isaac (6)
3. 'Ar lan y môr ....', rhwng Abertawe a Chaerdydd (8)
4. Tost, ond nid bara wedi ei grasu (4)
6. Gleiniau tafodieithol (6)
7. Eiliad (8)
8. Ia o driniaeth ysgytiol y daw'r gwendid (6)
13. Un â phigiad ganddo yw'r hogyn yn ôl a glywaf (5)
14. Heb fod yn gul (5)
16. Rhai sy'n cystwyo (8)
18. Hi, Armada, sy'n creu niwed (8)
19. Gwialen awdurdod yr hen athro (6)
20. Cyffroi o gwsg (6)
21. Hen wlad hynaws (6)
22. Ffyn bugeiliaid (6)
25. Heb ddim ynddo (4)

## CROESAIR MIS CHWEFROR

Dwsin yn unig a lwyddodd i gwblhau croesair mis Chwefror a'i yrru ataf mewn pryd, ac fe hoffwn longyfarch Mrs Mary B. Davies, Waunfawr; Mr E. W. Pritchard, Garndolbenmaen (diolch i chi am y neges!); N. Hughes, Cwm-y-glo; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Nansi Davies, Rhuthun; Elfed Evans, Llanllechid; Mrs G. Gill, Bangor; Olwen Owen, Llanberis; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Mabel Parry, Porthmadog; Ceinwen Williams, Bethel; a Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; am eu dyfeisgarwch yn llunio'r cliwiau cryptig. Llongyfarchiadau hefyd i Dilys am ennill cystadleuaeth croesair *Barn* mis Chwefror. 'Doedd o ddim yn hawdd.

'COMA' oedd y gair y disgwyliad i chi lunio cliw ar ei gyfer, ac fe aeth chwech ohonoch ar ôl y 'Co' bach o G'narfon, a'r rhan fwyaf yn rhoi gradd MA iddo. Diffiniad syml oedd cliwiau eraill 'Cyfle i gael gwynt', a 'Seibiant i'r darllenwr, nid cwsg i'r co, mae'n debyg'. Mae'r gair wedi ei guddio yn hon, sef ymdrech Ceinwen Williams, a'i guddio yn 'baco-main' wnaeth E. E. Jones.

Gan Mrs G. Gill, Bangor, mae'r un â mwyaf o feddwl y tu ôl iddo, sef 'Aeth Morgan y pysgotwr at geg yr afon i droelli'r atalnod' (Moc



Morgan a'r llythyren gyntaf yn 'afon' yn creu'r anagram. Ond i Mrs Mary B. Davies, Bryn Eithin, Waunfawr, mae'r wobwr yn mynd, a hynny'n syml am iddi lunio ei chliw mewn *barddoniaeth*. Nid awdl nag englyn, mae'n wir, ond ow, mae wedi plesio:

'Yng Nghymraeg mae'n llonydd am eiliad,

Sillafwch yn Saesneg â'n swrth a di-deimlad.'

Tasg ychwanegol y mis hwn ydi dewis gair gwahanol ar gyfer 13 i lawr, ac yna llunio cliw cryptig iddo. Mae'n rhaid iddo ddechrau â'r llythyren a geir yn yr ateb i 12 ar draws a hefyd gynnwys y llythyren sy'n dechrau'r ateb i 17 ar draws.

Gyrrwch eich atetion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 22 Mawrth.

# Dyddiadur y Mis

## MIS MAWRTH 1996

1. Gwener Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. **DEINIOLEN:** 2pm yn Ebeneser. **NANT PERIS:** 2pm yn Rehoboth. **LLANBERIS:** 7pm yn Capel Coch.
4. Llun **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug.
5. Mawrth **BETHEL:** Cinio Blynnyddol y Gymdeithas Lenyddol yng Nhŷ Golchi.
6. Mercher **DINORWIG:** Cinio Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Undebol yn Llangefni am 12.30pm. **LLANRUG:** Cinio Gŵyl Ddewi Plaid Cymru yn y Fictoria, Llanberis.
9. Sadwrn **BETHEL:** Plaid Cymru — noson yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Band, yng Nghlwb y Felin, Felinheli.
13. Mercher **WAUNFAWR:** Merched y Wawr — Swper Gŵyl Ddewi yn Llanfairfechan. Bws am 7pm.
19. Mawrth **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Undebol — Swper Blynnyddol yn y Bistro, Llanberis.
21. Iau **BETHEL:** Y Gymdeithas Lenyddol — Eisteddfod Ffug yn y Felinheli.
25. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Undebol yn y Caban am 7pm.

## RHODDION

£10: Mrs S. O. Edwards, Cilan, Llanrug.

£5: Arthur a Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug. Mrs E. W. Thomas, Dolwar, Llanrug. Geraint a Myfanwy Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygai. Mrs Ceinwen Williams a'r teulu, Bodowen, Rhes Cambrian, Llanberis. Mrs E. P. Jones, Foel Gron. Elizabeth Bryan, 1 Rallt Goch Ceunant, Llanberis.

£3: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Euron Davies, 3 Stryd y Wyddfa, Llanberis.

£2: Mrs Mair Jones, 17 Glanmoelyn, Llanrug. Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon, Llanberis.

## CYWIRIAD

o'r rhifyn diwethaf:

£10: Er cof am Mrs Jenny May Williams, (gynt o Cae Perthi, Nant Peris) gan ei theulu.

£5: Er cof am Mr Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor, Nant Peris, gan ei deulu.

## Tŷ AR WERTH yng Nghaernarfon

Dyma gyfle ardderchog i brynu eich cartref newydd **HEB WARIO DIME GOCH O'CH ARIAN EICH HUNAN!**

Tŷ tair llofft mewn cyflwr ardderchog, safle canolog yng Nghaernarfon, am bris hynod resymol o **£46,000**

**NID OES ANGEN DIM ARIAN I LAWR (ERNES). BYDD 5% O'R PRIS GWERTHU A'R HOLL GOSTAU CYFREITHIOL YN CAEL EU TALU AR EICH RHAN!** gan fod y perchenng eisiau cynorthwyo rhywun lleol i brynu.

Dim ond **£41.38** yr wythnos fydd y morgais am y flwyddyn gyntaf, ar ôl cael disgownt o **5.99%** o'r taliadau arferol; **NEU** gellwch ddewis derbyn **£2,300** mewn arian at gostau symud neu ddodrefnu.

**MAE HYN YN ARBED GWARIANT O £5,050 I CHI!**

Ymholiadau pellach:

**THOMAS ANDREWS A'I BARTNERIAID (Cyfreithwyr) FRON FAIR**

**STRYD FAWR, Y BALA, GWYNEDD**

Ffôn: (01678) 520893 neu (01248) 670311 ar ol 5pm

Cofiwch, mae eich tŷ mewn perygl oni fyddwch yn talu'r morgais neu unrhyw fenthyciad arall arno.

## GARTH MAELOG

### PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dwr oer  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cwn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**



# CHWARAEON

## Noson Wobrwyo Lwyddiannus

Denwyd torf sylweddol arall i Theatr Seilo ar gyfer noson fawr y chwaraeon yn Arfon. Disgwylir yn eiddgar am y noson yn flynyddol — dyma'r chweched — ac mae arddull broffesiynol y noson i'w chanmol. Gall adran dechnegol Cyngor Arfon ymfalchïo yn llwyddiant y noson, sy'n adlewyrchu'r camau breision a gymerwyd i ddatblygu chwaraeon yn Arfon. Rydym wedi symud yn bell a chyflym o'r dyddiau pan ystyriwyd Arfon yn unig fel cadarnle pêl-droed. Y mae'r noson wobrwyo yn adlewyrchu ystod eang o gampau sy'n fynnu yn y fwrdeistref. Y mae'n ystod sy'n pontio môr a mynydd, a llawer man rhyngddynt. y mae canolfannau chwaraeon a meysydd pob tywydd erbyn hyn yn frith. Y mae'r ganolfan tennis yng Nghaernarfon yn datblygu yn ganolfan o bwys o ran hyfforddiant a datblygiad y gêm. yn sicr nid man elitaidd ydyw fel yr awgrymwyd gan rai. Yn ddiweddar datblygwyd canolfan nofio er datblygiad y gamp honno. Braf oedd clywed bod bwriad i apwyntio trefnydd rygbi, a threfnydd gweithgareddau dŵr yn y dyfodol agos. Mae yma ddarlun o ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo statws chwaraeon o fewn i'r fwrdeistref. Gobeithio bydd yr un brwdfrydedd yn cael ei adlewyrchu gan gynghorwyr a swyddogion y Wynedd newydd.

Eleni yr hwyliwr enwog Richard Tudor oedd y gŵr gwadd. Mewn araith fer ond effeithiol pwysleisiodd nad oedd 'cymeryd rhan' yn ddigon — rhaid anelu at y brig. I gyrraedd y brig rhaid ymroddi yn gorfforol a meddyliol. Rhaid datblygu'r ddisgyblaeth fewnol, sy'n gyrru rhywun ymlaen. Nododd bod rhai o enillwyr y noson wedi cymryd y cam cyntaf ar y daith i'r brig.

Soniais yn gynharach am ystod y campau ac adlewyrchwyd hynny gan y sawl a dderbyniodd dlysau. Unwaith eto daeth rhai o fro'r Eco i ddilyn ôl traed Colin Jones, Alun Vaughan, Caitlin a Michael Wroe, ac eraill.

Yr eneth a enillodd fel y ferch mwyaf addawol oedd Clare Wilson o Glwb Nofio Dinas Bangor, a Siân Pursglove o Glwb Tennis Caernarfon.

Y bachgen mwyaf addawl oedd Eifion Jones o Lanrug. Mae Eifion yn

aelod blaenllaw o dîm o dan 15 oed Ysgolion Cymru, ac yn ymddangos yn rheolaidd ar 'Sky'.

Tim rygbi — 15 Ysgol Syr Huw Owen enillodd y dlwg tîm ieuenctid y flwyddyn. yn ail roedd tîm o bedair gymnast ifanc sy'n aelodau o Glwb Gymnasteg Eryri. Roedd tair ohonynt o fro'r Eco — Katherine Pike, Llanberis; Gemma Chong, Llanberis; a Lucy Stephens, Llanrug.

Yn ôl y disgwyl enillwyd y tlws am dîm oedolion y flwyddyn gan dîm pêl-droed Dinas Bangor — a enillodd bencampwriaeth y gynghrair bêl-droed genedlaethol am yr eilwaith yn olynol. Yn ail roedd y tîm o Glwb Hwyllo'r Felinheli — John Date a Nick Lowe.

Bob blwyddyn fe ddyfennir tlws i rai o fyd y campau a lwyddodd serch anabledd feddyliol neu gorfforol. Dyfarnwyd dwy wobwr eleni. Am ei ddawn mewn athletau a nofio gwobrwywyd Steven Roberts o Fethesda, sy'n ddisgybl yn Ysgol



Katherine, Gemma, Lucy a Jade — pedair gymnast addawol yr ail dîm gorau.

Pendalar. Y llall oedd 'y bolgi bach' ei hun, sef Gareth Roberts o Lanrug. Derbyniodd Gareth aren newydd pan yn dair oed, ond pwy fyddai'n sylwi? Dangosodd gryn ddawn tra'n nofio, chwarae tennis a badminton. Y mae'r tlysau arbennig hyn yn rhoi y termau 'chwaraeon' a 'camp' mewn gwir gyd-destun.

Ni ddaeth y brif wobwr i fro'r Eco eleni. Cipiwyd y wobwr gan Rhian Mai Huws o Ddyffryn Nantlle — athletwraig addawol iawn, gyda'r waywffon yn brif ddawn. Yn ail

## Nofio Cenedlaethol yr Urdd



Chwith i'r dde: Nia Williams, Elin Dafydd, Ceri Jones, Meleri Griffith, Nicola Jones a Sian Green.

Cynhaliwyd cystadleuaeth nofio dan 15 oed cenedlaethol yr Urdd yn

roedd Louise Roberts o Glwb Nofio Bangor.

Rhaid nodi fod tipyn o anniddigrwyd fod rhai o'r enillwyr yn byw ym Môn, er eu bod yn

Abercenyffig, ger Pen-y-bont ar Ogwr ar y 27ain o Ionawr ac, fel y maent wedi gwneud ers pum mlynedd bellach, aeth tîm o enethod o Lanrug sydd hefyd yn aelodau o Glwb Nofio Caernarfon ac Ysgol Brynrefail, yno i gynrychioli cylch Eryri.

Trafaeliwyd i'r de ar y nos Wener â'r tywydd yn bygwth eira, ac erbyn y bore roedd pobman yn wyn dan blanced. Heblaw am boeni os byddai Nia a Nicola am gyrraedd, ychwanegu at yr hwyl wnaeth yr eira. Wedi i Sian, Ceri Elin a Meleri gladdu 'brecwast Olympaidd' anferth yn y Little Chef cyfarfu pwb yn y pwll nofio, a nofiodd y genod yn ardderchog.

Enillodd Ceri, Elin, Sian a Meleri y fedal aur a thlws yr Urdd yn y ras gyfnewid rhydd, Sian (cefn, Nicola (broga), Elin (pili-pala), a Meleri (rhydd) y fedal aur a thlws arall yn y ras gyfnewid gymysg. Yn unigol cafodd Nicola bumed yn y dull broga ac Elin aur yn y gymysg unigol a phedwerydd ar y cefn.

Dathlodd y genod drwy fwyta a chwerthin lond eu boliau yn Rheaeadr ar y ffordd gartre ar y nos Sadwrn.

## Profiadau Cymysg

Fe fydd mis Chwefror yn aros yng nghof tri o bêl-droedwyr amlwg yr ardal am resymau hapus i'r ddau a thrist i'r llall.

Sgoriodd Marc Lloyd Williams i Stockport yng Nghynghrair Endsleigh. Roedd y gôl yn fwy gwerthawr fyth gan iddo gipio tri phwynt i'w dîm, a hynny wedi i Marc ddod i'r cae fel eilydd. Gobeithio y caiff hyder o hyn, wedi cyfnod o fod i mewn ac allan o'r tîm. Yn rhyfeddol, bu'n sgorio'n rheolaidd i'r ail dîm.

Ar y Cae Ras yn Wrecsam, sgoriodd Eifion Jones ei gôl genedlaethol gyntaf i Gymru yn erbyn Gogledd Iwerddon. Roedd darluniau teledu yn weddol bendant mai oddi ar gorff un o amddiffynwyr y Gwyddelod yr aeth y bêl i'r rhwyd. Yr oedd y sylwebyddion yn hael eu canmoliaeth i Eifion am fentro i'r cwrw cosbi a phenio'r bêl i gyfeiriad y gôl. Digon o reswm i roi y gôl iddo, tybed?

Yn anffodus torrodd Alwyn Williams ei goes am yr ail waith tra'n chwarae yn y gêm rhwng Deiniolen a Llanrug. Gobeithio y bydd y goes yn ymateb i'r driniaeth lawfeddygol fydd ei angen.



Aled Roberts a Richard Tudor.



Gareth Roberts a'i dlws haeddiannol.

**PAID  
ANGHOFIO  
FFONIO'R  
ECO  
(01248) 670115**